

ECO'R WYDDFA

Rhif 75

Tachwedd 1982

Pris 20c

EISTEDDFOD LLANRUG YN MYND O NERTH I NERTH



Un o uchelbwyntiau'r eisteddfod — gwobrwywyd prif lenor (chwith) a'r prif fardd mewn seremoni ddwbl. 'Roedd y ddefod yng ngofal Gorsedd Beirdd Ysgol Brynrefail.

Unwaith eto, bu Eisteddfod Gadeiriol Llanrug yn un llwyddiannus iawn. Cafwyd cystadlu brwd, bron yn ddi-baid, o 11.30 bore Sadwrn hyd 1.30 fore Sul, ac 'roedd digon o berfformiadau i ddiddori'r gynulleidfa a'r beirniaid sef Miss Haf Morris (Cerdd) a Mr Gwilym Hughes (Adrodd). Cafwyd teilyngdod yn y ddwy brif gystadleuaeth lenyddol a gwobrwywyd y prif fardd a'r prif lenor yn yr un seremoni. 'Roedd y ddefod yng ngofal Gorsedd Beirdd a Thrwmpedwyr Ysgol Brynrefail a chafwyd perfformiad gwefreiddiol o'r ddawns flodau gan rai o enethod ieuengaf Ysgol Llanrug. Arweinyddion y prynhawn oedd Mrs Bethanne Williams, Mrs Menna Williams a Mr Idriswyn Roberts; y nos, Mr John Roberts, Mr Gwyndaf Jones a Mr Derfel Gruffudd. Y gyfeilyddes oedd Miss Annette Bryn Roberts, Deiniolen a'r delynores Mrs Megan Roberts, Llanrug. Llywydd yr eisteddfod oedd Mr Geraint Huws Roberts.

Prifardd Eisteddfod Llanrug, Mr R.E. Jones o Garmel, cyn-chwarelwr a newyddiadurwr wedi ymdeol.

Yn ei gerdd fuddugol ar y testun 'Muriau' gwelai furiau adfeiliedig (erbyn hyn) bythynnod chwarelyddol bro ei febyd a chyferbynnai hyn â'i gymdeithas o bobl a fagwyd ynddynt — pobl a dyfodd i fod yn 'furiau' eu cymdeithas.

Dyma ei bedwaredd cadair ar bymtheg. Wytnnos union yn ddiweddarach enillodd ei ugeinfed yn Eisteddfod Bodffordd, Môn.

Prif lenor eisteddfod Llanrug — Mr Gwilym Meredydd Jones o Toxteth, Lerpwl. 'Roedd y gystadleuaeth am y Fedal Ryddiaith yn un hynod o dda yn ôl y beirniad llên y Dr Derec Llwyd Morgan, a rhoddodd ganmoliaeth

uchel iawn i waith 'Wmffra' (ffug-enw Mr Jones). Ei gamp oedd ysgrifennu am un digwyddiad drwy lygaid tri chymeriad gwahanol.

Mewn llai na blwyddyn enillodd Mr Jones Goron Powys, Medal Ryddiaith Dyffryn Ogwen, Medal Ryddiaith y Genedlaethol yn Abertawe a Medal Ryddiaith Llanrug.



Enillydd y cwpan am y perfformiad gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod y prynhawn oedd Graham Williams, Tegfan, Llanrug. Gwefreiddiwyd Mrs Haf Morris gan berfformiad Graham yn yr unawd offerynnol dan 12 oed.

Canlyniadau'n llawn ar dud. 5

SGIWYR GORAU CYMRU



Timothy Lloyd a'r chwiorydd Robina a Kirsty McCann. Y tri o Ysgol Brynrefail. Trowch i dud. 14 am yr hanes.

HERR I ACTORION LLEOL?



Peidiwch â phoeni. Maen nhw'n bethau digon cyfeillgar a 'does ganddyn nhw ddim bwriad i feddiannu'r fro! Dyma rai o'r "Jyrmans Cymraeg" y sonnir amdanynt yn "Drwy lygaid estra" ar dudalen 16.



Gethin Parry, Bro Dawel, Llanrug — enillydd y cwpan am y cynnyrch llenyddol gorau yn adran y plant — sef darn o ryddiaith ar y testun 'Carnifal'. Er nad yw Gethin ond saith oed derbyniodd ganmoliaeth uchel gan y Dr Derec Llwyd Morgan am ysgrifennu mor ddramatig a llenyddol ("a hynny'n naturiol bron") ac am gynnal y ddrama drwy'r gwaith.



Enillydd y cwpan am y perfformiad adrodd gorau yng nghyfarfod y prynhawn — Emma Bernard, Penlan, Llanrug. Swynwyd y beirniad gan ei chyflwyniad o'r 'Pry Copyn a'r Pry' yn y gystadleuaeth o 10 i 12 oed. Mae Emma, sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddi, yn gefnogol iawn i'r eisteddfod. Ymddengys ei henw hi a Louise, ei chwaer hyn, fwy nag unwaith yn y canlyniadau.

ECO'R WYDDFA

RHIF 75
TACHWEDD 1982

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 870550)

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

RHAGFYR 2

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

TACHWEDD 23

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

HEN YSGOL GLANMOELYN

Syr,

Cymerais sylw o'r hyn a
ddywedwyd am Hen Ysgol
Glanmoelyn yn y rhifyn diwethaf
o'r 'Eco'.

Dyma ychydig ffeithiau er
budd eich darllenwyr ac a ddylai
oleuo ychydig ar y sefyllfa.

Yn gyntaf, ni fu'r adeiladerioed
yn eiddo i Eglwys Llanrug. Ar ôl
iddi beidio â bod yn ysgol cafodd
yr Eglwys ddefnydd ohoni ond
nid hi oedd ei piau. Cystal yw
dweud yma nad yw'r un eglwys
blwy' yn dal eiddo. Corff
Cynrychioliadol yr Eglwys yng
Nghymru yng Nghaerdydd yw'r
rhaf sy'n dal eiddo. Y mae'r
Eglwys yng Nghymru yn
wahanol yn hyn o beth — fel
mewn sawl ffordd arall — i
Eglwys Loegr. Gyda llaw, ni
ddylai neb feddwl mai'r un un
yw'r ddwy eglwys. Y maent ill
dwy yn rhan o'r Gymuned
Anglicanaidd ond ni ddylid eu
huniaethu. Eglwys ag iddi
annibyniaeth yw'r Eglwys yng
Nghymru.

Yn ail, Ymddiredolaeth
Esgobaeth Bangor biau'r adeilad
a'r tir. Sbel o amser yn ôl cafodd
eglwys Llanrug gynnig prynu'r
adeilad gan yr Ymddiredolaeth.
Gwrthodwyd y cynnig.
Penderfynodd yr eglwys, gan
hynny, roddi'r hawl i'r
Ymddiredolaeth werthu'r
adeilad i bwy bynnag a fynnai.
Felly, y mae'r adeilad ar werth er
nad wyf fi hyd eto wedi gweld
hysbyseb ynglŷn â hynny. Fe
hoffwn i yn bersonol weld yr
adeilad yn syrthio i ddwylo lleol.
Os oes rhywun — boed unigolyn
neu gorff — â diddordeb,
cysyllter â mi ac fe roddaf
iddo-iddyt fwy o wybodaeth.

Yn drydydd, beth fydd yn
digwydd i'r arian wedi'r gwerthu?
Rhag ofn i unrhyw un feddwl fod yr
Eglwys yng Nghymru yn bwriadu
ychwanegu at ei chyfrif banc, dyma'r
hyn fydd yn digwydd: gan mai ysgol
ydoedd Glanmoelyn fe ddefnyddir yr
arian tuag at gynnal Ysgolion eglwys
neu rai sydd â chysylltiadau eglwysig
ac sy'n dal i fodoli o hyd — i'r
addysgwyr i eich plith, "Voluntary
Controlled Schools" a "Voluntary
Aided Schools". Os oes rhywun yn
anghytuno â hyn cysyllter â Mr
Nicholas Edwards, Y Swyddfa
Gymreig (!) — y fro a'i ragflaenwyr
sydd wedi pennu hynny.

Parthed y poen o weld plant yn
chwarae o gwmpas a thu mewn i'r
adeilad, yn syml, y maent yn
tresmasu. Maluriwyd y ffenestri,
drylliwyd y cloau a gwnaed difrod i'r
adeilad. Peryglus yw'r adeilad. Nid
oes gan y plant — a rhai hyn na phlan
ond nid eto o ran na chrebwyll na
chymeriad yn oedolion — yr hawl i fod
yno o gwbl. Y mae yna hefyd eiddo —
dodrefn ysgol ac ati — wedi eu dwyn
oddi yno. Go brin mai plant sydd
wedi cyflawni hynny!

Gobeithio i'r truth hwn egluro
rywfaint bach ar y sefyllfa.

Yr eiddoch yn gywir,
Aled Jones-Williams,
Y Rheithordy,
Llanrug.



ADDUNIAD YN OTTOWA

Annwyl Syr,

Gorffennaf 26 eleni, trwy
garedigrwydd Mr a Mrs Tal
Griffiths, fe dreuliodd noson
ddifur iawn yn eu cartref, yng
nghwmni Cymry Ottawa. Brodor
o Gaerfyrddin yw Tal ac y mae'n
Uwch Ymgynghorydd yn Adran
Gyrfa'r Gwasanaeth Addysg yn
Ottawa. Daw ei wraig, Shirley, o
Lanberis, ac y mae'n
gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail.
Trefnodd felly fod rhai o
gyn-ddisgyblion eraill yr hen
ysgol yn cynnal eu haduniad
bach eu hunain y noson honno.
Llun o rai o gyn-ddisgyblion a
chyn-athro Ysgol Brynrefail.
(Tynnwyd gan Mr Dewi Morris)

Yn y rhes ôl y llun gwelir, o'r
chwith i'r dde: Mrs Shirley
Griffiths, Mrs Eunice Morris, Mrs
Ceridwen Jones (i gyd o
Lanberis), Mr W.J. Davies,
(cyn-athro Ffrangeg Ysgol
Brynrefail), Mrs Nansi Davies a
Mrs Nansi Jones (y ddwy o
Lanberis). Yn y rhes flaen ceir Mr
Ronald Jones o Ddeiniolen (gŵr
Ceridwen), y Dr. Iorwerth Glyn
Morris o Lanberis a Mr Elwyn
Jones o Ddeiniolen (gŵr Nansi).

Cyfrifydd yn y Gwasanaeth
Gwladol yn Ottawa yw Ronald, a
Rheolwr Peiriannol y Cwmni
"Integrated Plastics Ltd.,
Toronot" yw Elwyn.

'Roedd y Dr a Mrs Iorwerth
Morris, eu mab Dewi, a'u merch
Gwen ar eu gwyliau yng
Nghanaada. Hefyd ar eu gwyliau
oedd Mr a Mrs W.J. Davies a'u
merch Nia.

Darlithydd yn Adran Swoleg
Coleg Prifysgol Gogledd Cymru,
ym Mangor, yw'r Dr. Iorwerth
Morris, a'i wraig Eunice yn
athrawes, tra bod Dewi'n
fferyllydd a Gwen yn fyfyrwraig
yng Ngholeg y Brifysgol
Caerdydd. Y mae Mr a Mrs W.J.
Davies, ill dau'n gyn-athrawon o
Ysgol Brynrefail, y naill yn dysgu
Ffrangeg a'r llall yn dysgu
gwyddortŷ. Newyddymdeolo'i
swydd fel Uwch Ymgynghorydd
leithoedd Modern yng Nghlwyd
y mae Mr W.J. Davies. Athrawes
ysgol uwchradd yw ei wraig,
Nansi, ac y mae Nia'n ddisgybl
yn Ysgol Brynhyfryd Rhuthun.

Y mae gan Mr a Mrs Tal
Griffiths ddwy ferch, Julie a Siân.
Gweithio i'r Gymuned
Ewropeaidd ym Mhencadlys
Brussels mae Julie, a'i chwaer yn

fyfyrwraig yn Ottawa.

Y mae Mr a Mrs Tal Griffiths yn
enwog yng Ngogledd America
am eu croeso gwresog a'u
lletygarwch dihafal bob amser,
ac y mae eu cartref yn gyrchfan i
bawb sydd â diddordeb yng
Nghymru, ei diwylliant a'i hiaith.

Ar yr achlysur bythgofiadwy
hwn 'roedd hi'n hanner awr wedi
tri o'r gloch fore trannoeth pan
ddaeth y miri i ben!

Yr eiddoch yn gywir,
William J. Davies,
Y Dreiflan,
17 Maes Meugan,
Rhuthun.

"GWARTHUS"

Syr,

Caniatewch le bach yn eich papur
sydd o ddiddordeb mawr i mi bob
mis.

Pan oeddwn yn Llanberis ar wyliau
yr haf yma, aethom i fyny i Ddinorwig
ac at y Chwarel i edrych i lawr y twll
mawr. Cefais sioc. Nid oes gennyf air
ond "disgusting" wrth gofio gweld y
sbwriel wedi cael ei daflu i lawr yno
nid yn unig mewn un twll ar Ffordd
Dinorwig ond mewn llawer. A phan
oeddem yno daeth rhywun â llond
fan a lluchio mwy o sbwriel i lawr y
twll.

Mae'n amser i rywun eu dal a'u
gorfodi i dynnu'r sbwriel oddi yno.

"Shocked and disgusted"

Wilfred A. Jones
gynt o Fachwen.

Daeth y llythyr isod yn yr un amlen â'r
uchod — Gol.

I'R GAD DROS Y BONT

Syr,

Syfrdanwyd finnau hefyd pan
ddarllenais yn Eco'r Wyddfa fod rhai
eisiau cau Pont Penllyn.

Wel wir, beth ydych am ei wneud
ardalwyr Brynrefail, Cwm-y-glo a'r
Fachwen?

Bydd yn golled i bawb hyd yn oed
i'r ymwelwyr sydd yn dod y ffordd
yma. Mae llawer un o'r ffordd yma
wedi bod yng Ngogledd Cymru am
wyliau ac mae llawer ohonynt wedi
dangos imi luniau oedd wedi eu
tynnu o Bont Penllyn. Roeddynt i gyd
yn dweud yr un peth, mai dyna'r lle
gorau i weld golygfa fendigedig o'r
Wyddfa a'r dyffryn.

"To Battle" a gobeithio y byddwch
i gyd yn gwneud hynny.

Wilfred A. Jones

O.N. Roeddwn yn yr ardal ddwywaith
yn ystod yr haf yma a bwm yn eistedd
ar y bont.

23 Woking Rd.
Parkstone
Poole
Dorset

LLYTHYRAU (Parhad)

Annwyl Syr,

Pont Penllyn a 'Chwarae'n troi'n chwerw'

Cwestiwn: Beth yw'r cysylltiad?

Rhyw chwe mis yn ôl daeth cân Bando yn boblogaidd iawn, a thua'r un adeg dyfeisiodd rhywun stori a'i hanfon i 'Eco'r Wyddfa' yn dweud am gynllwynion i ddymchwel Pont Penllyn, a hyn i gyd er gwneud rhyw ddarllenydd brwd yn Ffŵl Ebrill (a brysiad i ddweud i mi syrthio i'r trap!). 'Rwy'n siŵr fod y 'rhywun' hwnnw yn teimlo'n dipyn o ffŵl ei hun erbyn heddiw. A dyna'r cysylltiad i mi rhwng Pont Penllyn a

"chwarae'n troi'n chwerw

A'r gwin yn troi'n sur.

Y wên yn troi'n ddagrau

A'r wefr yn troi'n gur."

Na, nid wyf yn dal dig am gael fy ngwneud yn ffŵl yn Ebrill, ond tybed pe bai mwy o ffyliaid wedi darllen yr 'Eco' yn Ebrill, ac wedi dangos eu gwrthwynebiad, a fuasai tynged yr hen bont yn y fantol heddiw?

"Os oes rhywun yn rhywle

Yn gwrandio arnai'n syn —

Anfon dy enw ar fyrder

I achub Pont Penllyn."

Mae'n debyg mai cynllun pellach yr Awdurdod fydd SAETHU'R TYLLUANOD!!

Enid Jones,

Bryn Gelli,

Talysarn.

Arran Bragdai Cymru dros agor y tafarnau ar y Sul

Syr,

Darllenais lythyry Parch D. Ben Rees o Lerpwl yn eich rhifyn diwethaf ac yr wyf innau am annog y cyhoedd i bleidleisio o ddifri—i agor y tafarnau ar y Sul.

Canolbwynt y ddadl yw hawl yr unigolyn i ddewis drosto ei hun bob Sul a oes arno eisiau mynd i addoldy, i dafarn neu efallai i'r ddau le. Mae'r hawl yma yn un gwreiddiol ac ar hyn o bryd nid yw ar gael i drigolion bro Eco'r Wyddfa.

Ar y 3ydd o Dachwedd mae cyfle i etholwyr y fro ddangos i'r byd eu bod yn feddwl agored ac wedi troi eu cefnau ar gulni a rhagrith ac mewn un cam derbyn yr un hawliau ar y Sul a'r rhan fwyaf o Gymru.

Ni ellir amcangyfrif gwerth y gwelliant yma i'r ardaloedd hynny sydd yn dibynnu mor drwm ar lwyddiant y diwylliant twristiaeth, felly, os ydych am wella cyflwr eich ardal byddwch yn feddwl agored ddydd y refferendwm.

Yr eiddoch yn gywir,

Ffred Williams,

Wrexham Lager Beer Co. Ltd.,

5, Central Road,

Wrexham.

MUDIAD YSGOLION

MEITHRIN

APÊL

Annwyl Olygydd,

Er yr holl sôn am grantiau hael roddir i'r Mudiad, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau yn destun pryder. Gwir i'r grant roddir i'r Cylchoedd godi o £165,000 i £180,000 ond yn ôl amodau'r Swyddfa Gymreig ni cheir defnyddio hwn, fel y cyfryw, at gynnal y Mudiad yn ganolog. Dim ond codiad o £4,000 gafwyd yn y grant i'r pwrpas hwn, sef grant o £98,000. Mae hwn yn talu cyflogau 25 o staff (y rhan fwyaf, o reidrydd, yn rhan amser) a holl dreuliau a chostau gweinyddol y Mudiad. Dengys y ffigurau uchod na chaiff neb fywoliaeth fras ar gorn arian cyhoeddus a chyfraniadau gwirfoddol.

Yr ydym, felly, yn lansio apêl am arian. Os ydych am gyfrannu, a fuasech mor garedig a llenwi'r ffurflen isod, ei thorri a'i dychwelyd yn ôl y cyfarwyddiadau.

Yn gywir,

Gwilym Roberts,

(Cadeirydd)

D. Bryn Lloyd,

(Ysgrifennydd Ariannol),

J. Bryan Jones

(Cyfarwyddwr)

At: Cyfarwyddwr, Mudiad Ysgolion Meithrin

10 Park Grove

Caerdydd, CF1 3BN

Dymuna ymaelodi â Mudiad Ysgolion Meithrin; dyma fy nghyfraniad

Aelod (£6 neu ragor y flwyddyn)

Aelod teulu (£7.50 neu ragor y flwyddyn)

Aelod oes (£150 neu ragor)

Enw

Cyfeiriad

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£3.00 — Plant Mrs Roberts, 27 Hafod Olau, Deiniolen; Mr a Mrs Huw Jones, Awstralia.

£2.50 — Mr a Mrs W.T. Berry a'u meibion, Leicester (Mrs Beryl yw merch y diweddar Mr a Mrs W.J. Evans, Stryd y Dŵr, Llanberis).

£2.00 — Mr V. Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont; Mrs Eileen Roberts, Earl's Barton,

Northants.

£1.00 — Mrs Enid Roberts, 56 Maes Padarn, Llanberis; Mrs N. Hughes, Erw Fair, Deiniolen; Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig.

AR WERTH

Beic 'chopper' mewn cyflwr da iawn. £45. Ffôn Caernarfon 3776.

Beic merch 3 gêr. Beic i fachgen 10 i 12 oed. 2 feic i blentyn. Y Felinheli (Port Dinorwig) 670861.

Y CANON ALUN JONES

DEON GWLAD ARFON

Brawychwyd ni oll pan glywsom nos Fawrth, Hydref 5 am farwolaeth erchyll ein Deon Gwlad, y Canon Alun Jones, yn ei Ficerdy yn Llanberis. Sioc ac ysgytwad annifyr a ddaeth i ran pawb, yn arbennig felly ymysg ei bobl ym mhlwyf Llanberis. Gwasanaethodd Alun Jones yn Llanberis ers 1955 a gwasanaethodd y Ddeoniaeth fel Deon Gwlad ers 1973. 'Roedd ei gyfraniad at wahanol agweddau o fywyd yr Eglwys yn lleol, yn Ddeoniaethol, yn Esgobaethol ac yn Daleithiol yn un mawr a'r tristwch yw fod ganddo gymaint i'w gyfrannu eto. Ers y dydd yr ordeiniwyd ef ni phallodd ei weithgarwch egniol dros Grist yn ei Eglwys ac ymysg ei bobl. Gŵr ysbrydol ydoedd, gyda Gweddi ac Encil yn rhan annatod o'r bywyd hwn. Un erthygl ymysg y llawer a ysgrifennodd ar y bywyd ysbrydol oedd yr un a ymddangosodd yn "Yr Haul a'r Gangell" cylchgrawn chwarterol yr Eglwys yng Nghymru, Caeaf 1973, dan y pennawd "LLAWENYDD YR OFFEIRIAD". Onid oedd ei fywyd a'i radlonrwydd hoffus yn enghraifft berffaith o'r "llawenydd" hwn — dyma rai brawddegau o'r erthygl y dylai fod ym meddiant pob darpar Offeiriad — "Petai meibion yr Eglwys yn adnabod mwy am y LLAWENYDD sy'n perthyn i swydd arbennig yr Offeiriad, fe allai fod yn foddion i'w symbylu i ateb yn ddibryder yr alwad sy'n dod oddi wrth Iesu Grist ein Harchoffeiriad mawr ... Y mae LLAWENYDD yn rhywbeth mor hyfryd, nes teimlo ohonom ei rannu ag eraill ... Y mae Duw yn galw o hyd, a phetai ein bechgyn yn ymwybodol mai wrth ateb yr alwad hon y maent i sicrhau LLAWENYDD pennaf eu bywyd, tybed a fuasent mor barod i droi clust fyddar iddi a cheisio'r boddhad arwynebol sy'n edrych mor ddeniadol mewn swyddi a galwedigaethau eraill."

Bu'n gyfaill mawr i Offeiriad, yn enwedig y rhai oedd yn cychwyn yn yr Offeriadaeth fel y gwn mor dda, gan fod ei gyngor bob amser yn un gwerthfawr oherwydd fod profiad mawr y Canon yn y cyfarwyddyd, yn anogaeth a'r siars. 'Roedd mynd i Lanberis i gyfarfodydd Siapterau, i bregethu Diolchgarwch, i feirniadu yn Eisteddfod Eglwys, neu troi i mewn am sgwrs hamddenol, yn rhoi darlun o ŵr trefnus, o weithgarwch di-flino ac yn bennaf oll, o gariad angerddol at ei waith amrywiol fel Gŵr Duw yn y llecyn hyfryd hwn wrth droed yr Wyddfa. Lle bynnag y teithiai o gartref ar wahanol ddyletswyddau, 'roedd dychwelyd i erwau Llanberis yn rhoi mwynhad pennaf iddo.

Ei ddawn fel Offeiriad Plwyf a saif yn goffadwriaeth bennaf ohono, gan "ar lawr y plwyf" fel petai 'roedd yn feistr ar y gwaith. Mewn siapterau a chyfarfodydd clywyd syniadau a damcaniaethau o wahanol gyfeiriadau ond yn y "glorian blwyfol" y byddai ef yn pwyso eu gwerth a chrynhoai hyn ei safbwynt cryf mai yn y plwyf yn y pen draw yr oedd yr Eglwys i fyw yn iach.

Bu plwyfolion Llanberis a Nant Peris yn lwcus o'i gael fel Offeiriad am 27 mlynedd a bydd meddwl am y plwyf hebddo yn rhywbeth chwithig a dweud y lleiaf. Ond er tristed amgylchiadau ei farwolaeth ciaidd, gwn mai ei neges ef, wedi ei gwreiddio yn neges ei Waredwr, i ni oll, fyddai fod yn rhaid i waith Crist fynd ymlaen, ac i ni oll ymwroli ar ein dagrau yn y gwaith hwn. Dyma'r neges i blwyfolion Llanberis wrth wynebu'r dyfodol.

Soniais am "LLAWENYDD" y bersonoliaeth gref hon ac am ei ysgrif o ysbryddoliaeth ar y LLAWENYDD" hwn, a gellir crynhoi y cyfan yng ngeiriau "GOBAITH" y gwasanaeth angladdol — "DA WAS, DA A FFYDDLON, DOS I MEWN I LLAWENYDD DY ARGLWYDD".

Y Parch Idris Thomas,

Trefor.



Dyma ddarlun o'r Canon Alun Jones (ar y dde) yng Ngŵyl y Darllenwyr Lleyg yn Eglwys Clynnog ar ddydd Sadwrn, Medi 25 — deng niwrnod cyn ei lofruddiaeth erchyll. Yn y darlun hefyd mae Archesgob Cymru, y Dr G.O. Williams, (brodor o Benisarwaun) yn ei ddigwyddiad mawr olaf cyn ei ymddeoliad ddiweddd Medi. Yn y llun hefyd, trydydd o'r dde, mae'r Parch Idris Thomas, Ficer Cynnog (brodor o Ddinorwig). Yn y llun gwelir dau o ddarlennwyr a dderbyniwyd i'w swydd y diwrnod hwnnw. Roeddy Canon Alun Jones yn Warden y Darllenwyr Lleyg yn Archddiaconiaeth Bangor.

YMDDEHEURIAD

Cyhoeddwyd ar dudalen flaen y rhifyn diwethaf y byddai'r Cyngor Sir, ar ôl gorffen y gwaith o adnewyddu'r adeilad ar gopa'r Wyddfa, yn ei werthu i'w berchennog gwreiddiol, sef Cwmni'r Rheilffordd. Mae hyn yn hollol

anghywir. Dylsem fod wedi cyhoeddi y bydd y Cyngor Sir yn rhoi'r lle i'r Cwmni Rheilffordd ar brydles hir.

Mae'r gwaith o adnewyddu wedi dod i ben ar hyn o bryd. Ailddechreuir yn y gwanwyn.

WAUNFAWR

YR URDD – Ddydd Sadwrn, Hydref 2 cafwyd Taith Gerdded a Helfa Drysor o gwmpas Waunfawr wedi ei threfnu gan yr arweinydd Kevin Jones. Mwynhaodd tua deg ar hugain o blant eu hunain yn cerdded y llwybrau ac yn chwilio am yr atebion i'r llw cwestiynau. Yr enillwyr oedd Elli Haf, Nan Wyn a Bethan Wyn. Diolch i'r oedolion a fu'n cerdded ac yn cael hwyly gyda'r plant.

Nos Wener, Tachwedd 5 cynhelir Coelcerth a Thân Gwylt yng Nghae Bodhyfryd am 6.30 o'r gloch ac yn dilyn cŵn poeth a chawl yn Neuadd yr Eglwys. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â ni yno.

Bydd rhai o aelodau Adran yr Urdd Waunfawr yn cymryd rhan yng Nghwasanaeth Sul yr Urdd, a gynhelir eleni yn Llanberis, Tachwedd 21 am 3.15 o'r gloch.

Nos Fercher, Tachwedd 24 bydd Cwmni Drama Glannau Dwyfor yn perfformio dwy ddrama fer yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch.

MERCHED Y WAWR – Cafwyd noson ddiddorol iawn i gyfarfod cyntaf y tymor yng nghwmni Mr Gerallt Lloyd Owen. Adroddodd amryw ddarnau o'i farddoniaeth gan gynnwys yr Awdl fuddugol yn Eisteddfod Abertawe. Diolchwyd yn gynnes i Mr Owen gan Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed. Mrs Iona Williams, Coed Gwydryn roddodd y raffl a'r enillydd oedd Mrs Nan Hughes Roberts. Mrs Catherine Meirion Jones a Mrs Gillian Wyn oedd yn gofalu am y te.

A fydd pawb sy'n bwriadu dod i'r Cinio Nadolig yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug ar Dachwedd 25 gystal a rhoddi eu henwau, ynghyd ag arian i un o'r rhai canlynol: **Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn, Mrs Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon neu Mrs Greta Hughes, 16 Tref Eilian.**

CLWB Y MAMAU – Cynhaliwyd noson goffi a 'Dutch Auction' yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Hydref 8. Casglwyd yr arian at gronfa'r Ganolfan. Enillwyd y raffl gan: 1. Siân Lloyd Jones, 2. Carl Parry, 3. Mrs Carys Jackson. Ein diolch i'r pentrefwyr am eu cymorth ac i Mr John Smith am ei waith campus fel arwerthwr.

CLWB 300 – Dyma restro enillwyr y Clwb 300 am fis Medi a dynnwyd gan rai o drigolion Ael y Bryn. 1. Rhif 134, £40, Huw Griffiths, Swyddfa'r Post; 2. Rhif 153, £25, T.K. Parry, 16 Bro Waun; 3. Rhif 191, £10, Miss Marian Jones, Foel, 12 Dolerddi.

CANOLFAN WAUNFAWR – Cynhelir Ffair Sborion yn 'Feed my Lambs', Caernarfon ddydd Sadwrn, Hydref 30. Dylai unrhyw ddeunydd i'w werthu gael ei gyflwyno'n ddigon buan i ferched y pwyllgor, Barbara, Grace, Rosanne, Glenys, Alys a.y.b.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar am gyfraniadau hael a gafwyd gan

unigolion yn ddiweddar ynghyd â rhodd hael gan Ysgol Waunfawr.

Cynhelir cyngerdd arbennig, – 'Doniau Bro' nos Wener, Rhagfyr 3 yn cyflwyno prif enillwyr Eisteddfod ardal Waunfawr.

Gwnaed elw o £500 o'r beicio noddedig yng Nghaernarfon. Trefnir raffl Nadolig a dewisir yr enillwyr yn y flwyddyn newydd. Mae'r tîm 'o adeiladwyr a wnaeth waith mor rhagorol ar waliau'r Ganolfan erbyn hyn wedi cytuno i osod y to hefyd. Diolchwyd iddynt am eu gwaith da ac hefyd i Mr T.A. Thomas, Haulfryn am gytuno i arolygu'r gwaith. Gobeithir bydd y to yn ei le erbyn diwedd Ionawr.

Penderfynwyd cynnal y pwyllgorau ar nos Fawrth gyntaf bob mis, ac fe gynhelir y pwyllgor nesa nos Fawrth, Tachwedd 3 yn Neuadd yr Eglwys.

LLONGYFARCHIADAU – i Valmai Williams, Cefn Coed ar ei phen-blwydd yn 18 oed, ac hefyd ar ei hapwyntiad fel ysgrifenyddes yn Adran 'Personnel' Cyngor Bwrdeisdref Arfon, ac i Eleri a Kelyth, 9 Stâd Tŷ Hen, ar enedigaeth merch fach, Ffion Mai.

ADREF O'R YSBYTY – Gobeithiwn fod Mrs Peggy Jones, Glyn Afon yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

CLWB 100 PLAID CYMRU – Dyma enillwyr y Clwb 100 am fis Medi: 1. Mrs Mwynwen Jones, 2. Ifanwy Rhisiart, 3. Siôn Prys Jones.

EISTEDDFOD ARDAL – Cynhelir Eisteddfod Ardal Waunfawr ddydd Sadwrn, Tachwedd 13 yng Nghapel M.C. Croesywaun. Dechreuir cyfarfod y prynhawn am 1 o'r gloch a chyfarfod yr hwyr am 6 o'r gloch. (Cystadlu yn agored i unrhyw un sydd yn byw yn Waunfawr a Betws Garmon.)

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Jones, Pant ar ddathlu ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod Hydref ar y seithfed o'r mis yn Neuadd yr Eglwys gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf. Mrs Morfa Evans fydd yn ein cynrychioli yng Nghyngor yr Hydref a gynhelir ym Methesda.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y wraig wadd – Mrs Twiss o Nantlle ar ei 'gwaith gyda rhubanau'. Diolchodd Mrs Mottram ar ran y Sefydliad. Miss M. Roberts enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs Twiss a Miss Roberts a gafodd y blodau a roddwyd gan Mrs Peggy Jones.

I ddiweddu'r noson cafwyd swper wedi'i drefnu gan rai o aelodau'r pwyllgor i ddathlu penblwydd Mrs Jones, Pant yn 80 oed ac fe gyflwynwyd planhigyn iddi a cherdyn wedi'i lofnodi gan yr aelodau oedd yn bresennol.

CANOLFAN GYNGHORI

Mae'n debyg eich bod wedi clywed am GANOLFANNAU CYNGHORI ond ydych chi'n gwybod pa fath o gwestiynau y maent yn gallu ymdrin â nhw?

Y mae hyfforddiant y gweithwyr a'r wybodaeth ddiweddaraf y maent yn ei dderbyn yn eu galluogi i ymdrin â chwestiynau perthnasol i: **Problemau Tai; Nwyddau a Gwasanaethau; Problemau Teuluol a Phersonol; Gweinyddu Cyfraith; Trafnidiaeth a Theithio;**

Addysg; Iechyd; Nawdd Cymdeithas; Problemau Gwaith; Trethi; Rheolau Gwladol a Rhyngwladol.

Wrth gwrs dydy nhw ddim yn gwybod popeth am bob un o'r rhain ond maen nhw wedi eu hyfforddi i ddeall pa broblemau y gellir eu trin yn y canolfannau a pha rai i'w gyrru ymlaen at arbenigwyr.

Os ydych yn gwybod am unrhyw un sydd angen help, cyfeiriwch hwy i'r ganolfan agosaf.

TRIP Y GWEITHWYR BLAWD



Diolch i Mrs K. Hughes, Llys Meredydd, Waunfawr am roi benthyg y llun yma inni o daith Bibby's, y gweithwyr blawd tua 25 mlynedd yn ôl. "Cawsom daith i'r gwaith," meddai K. Hughes, "a chinio mewn gwesty. Wedyn, mynd i Lerpwl a swper a'r cwbl am ddim." Tybed a oes rhai o ddarlennwyr yr Eco yn y llun?

CWM-Y-GLO

CAWL A CHÂN – Cafwyd noson hwyliog gydag Edward Morus Jones nos Fawrth, Hydref 12. Daeth cynulliad da i'r ganolfan a chafwyd amser difyr yn canu ac yn gwrandao ar yr arweinydd gyda'r plant yn arbennig yn amlwg wrth eu bodd yn cael ymuno yn y canu a'r actio.

Roedd y cawl dan ofal Mrs Jean Hughes a Mrs Watkins a phawb yn falch ohonohanner ffordd drwy'r cyfarfod.

Enillwyd gwobrau'r raffl gan Mrs Verna Jones, Mrs Mair Williams a Nia Hughes. Gwnaed elw sylweddol tuag at gynnal y ganolfan a dymuna Merched y Wawr ddiolch i bawb a gefnogodd y noson.

POBOL Y CWM – Bu dau gyfarfod yn

ystod y mis, pryd y caed sgwrs ddiddorol gan Mr R.H. Parry, Caernarfon, brodor o'r ardal, ar farddoniaeth, gyda darlenniadau o'i waith ei hun. Yn y cyfarfod dilynol, gyda chymorth sleidiau, rhoddodd Mrs Peris Roberts, hanes ei gwyliau yng Nghnada yn ystod yr haf diwethaf. Diolchwyd i'r ddau ar ran y Clwb gan y llywydd.

Cydymdeimlwyd â Mrs Hughes, Bryn yn ei phrofedigaeth ddiweddar. Derbyniwyd Mr John Phillips fel aelod newydd i'r clwb. Enillwyd y raffl gan Mrs E. Hughes, Hyfrydle a Mr J.E. Watkin, Dolwen. Darparwyd y te i'r ddau gyfarfod gan Mrs Hughes, Bryn, Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd, Mrs L. Evans, Gwylfa a Miss E. Hughes, Tan y Graig.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

LLANRUG

ADREF O'R YSBYTY - Mae David Roberts, 12 Nant y Glyn adref ar ôl triniaeth lawfeddygol yn ysbty'r 'Royal Liverpool Heswall'. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

CYFARCHION PEN-BLWYDD - i Einir ac Emyr, efeilliaid Mr a Mrs E.T. Roberts, Elan Wen oedd yn flwydd oed Hydref 26.

CYDYMDEIMLWN - â Mrs Ceridwen Jones, Eryri a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer, Mrs Mary Catherine Marsden.

MARW - Hydref 11 bu farw Mr Arfon Davies, 21 Bro Rhyddallt yn 60 oed. Cydymdeimlwn â'i weddw, Mrs Katie Davies, a'r meibion, Meirion a Bryn a'i ferch, Gwawr, ynghyd a'i frodyr a'i chwaer. Bu ei angladd ddydd Gwener ym mynwent Llanrug, gyda'r Parch W.O. Roberts yn gwasanaethu.

Hydref 17 yn ei gartref ym Mangor, bu farw Mr William Arthur Evans, gynt o Bod Eifl, Pontrhythallt. Rhoddodd Mr Evans wasanaeth gwerthfawr i eglwys i'r cych trwy'i bregethu. Cydymdeimlir â'i weddw, ei chwaer, Mrs Williams, Llys Meirion, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

GENI - Llongyfarchiadau i Dei a Carys (Tanygaer) ar enedigaeth mab. CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, PONTRHYTHALLT - Cynhelir noson o baned a byrddau gwerthu nos Wener, Tachwedd 19 yn Ffestri Pontrhythallt. Yr elw at y capel.

DIOLCHGARWCH - Dathlwyd yr Wyl Ddiolchgarwch ym Mhontrhythallt nos Sul Hydref 17 gyda chwiorydd yr eglwys yn gwasanaethu.

YN YR YSBYTY - Mae Mrs E.L. Jones, Bodlondeb yn Ysbyty Môn ac Arfon. Anfonwn ein cofion ati gan ddyddmuno iddi adferiad llwyr a buan.

Anfonwn ein cyfarchion hefyd at Mr Emlyn Jones, Parc Isaf sydd yn Ysbyty Eryri a'n dymuniadau am adferiad iechyd iddo.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR - Nos lau, Hydref 7 cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Croesawyd Mrs Glaister, Sycharth atom am y tro cyntaf ac anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau da at yr oll o'r chwiorydd oedd yn wael gan ddyddmuno adferiad buan iddynt. Diolchwyd i'r chwiorydd oedd wedi anfon rhoddion ond yn methu bod yn bresennol. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Lydia Jones, 15 Hafan Elan (anfonwyd cofion at Mrs Jones oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd a chymerwyd ei lle gan ei merch, Mrs Beryl Thomas, Gerallt) a Mrs Jennie May Jones, Ger y Ffynnon. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs Nansi Roberts. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn trefnu'r Ffair Nadolig flynyddol sydd i'w chynnal Rhagfyr 3.

BEDYDD - Yn ei chartref Moel yr Wyddfa prynhawn Sul, Hydref 3 bedyddiwyd Gwenno Lloyd, merch fach Robert Hilton a Meryl Lloyd Williams. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts a chynrychiolwyd y Capel Mawr gan Mrs Beryl Thomas, Gerallt.

DIOLCHGARWCH CHWIORYDD Y CAPEL MAWR - Yn ôl yr arfer chwiorydd y Capel Mawr oedd yn gofalu am gyfarfod y prynhawn yn yr Wyl Ddiolchgarwch a gynhaliwyd eleni Sul, Hydref 3. Cymerwyd rhan gan Mrs Meirwen Lloyd, Afallon, Mrs Joan Griffiths, Pant Tirion, Mrs Beryl Thomas, Gerallt, Miss Gwenda Jones, Y Gwern, Mrs Megan Owen, Glasgoed, Mrs Margaret Parry, Bro Dawel, Mrs Gwenda Roberts, Hafle, Mrs Mair Oliver Jones, Dolwyn, Mrs Myfi Roberts, 4 Plastirion a Mrs Nansi Roberts, Manod. Llywyddwyd gan

Mrs Nansi Roberts a'r organyddes oedd Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel.

DIOLCHGARWCH Y PLANT - Cafwyd oedfa arbennig ar fore Diolchgarwch gan blant Ysgol Sul Capel Mawr. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal yr arolygwraig, Mrs Margaret Parry, Bro Dawel ac athrawon yr Ysgol Sul. Cyfeiliwyd gan Mrs Mair Jones, Ogwen. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol o ddiolch gyda blaenoriaid y Capel Mawr yn gwasanaethu.

MERCHED Y WAWR - Nos Fawrth, Hydref 12 yn Ysgol Gynradd Llanrug o dan arweiniad llywydd y gangen, Ann Llwyd, cyfarfu cangen Llanrug o Ferched y Wawr. Y gŵr gwadd oedd Mr John Owen Hughes. Testun ei sgwrs oedd 'Straeon Ysbryd'. Cafwyd chwedlau diddorol ganddo am greaduriaid hynod, bwganod, gwrachod a dewiniaid.

Chwaraeodd ar dâp straeon diddorol yn cael eu hadrodd gan y diweddar William John Jones, Talmignedd, Brynffynnon Ceunant gynt.

Croesawyd Mrs Carrie Owen yn ôl i'n plith ar ôl triniaeth lawfeddygol. Da oedd ei gweld wedi gwella. Cydymdeimlwyd â Mrs Katie Williams, ar golli ei chwaer yng nghyfraith Mrs Katie Williams, Tregarth.

Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs Bethanne Williams. Diolchwyd hefyd i'r merched baratodd y baned de. Mrs Bierley oedd enillydd y raffl, a Mrs Ceinwen Roberts oedd y buddugol yng nghystadlaethaueth gwneud mwngwd. Cynhelir y cyfarfod nesaf Tachwedd 9 pryd y ceir sgwrs a sleidiau ar India gan Gwen Jones.

CYMDEITHAS CHWIORYDD PONTRHYTHALLT - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas brynghawn lau, Hydref 21 gyda Mrs Ifor Williams yn llywyddu. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs E. Whiteside Thomas. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Emrys Owen, Hafan Elan. Mrs W.A. Jones gynigiodd y diolchiadau. Y gwesteion oedd Mrs Ellis, Treflan a Mrs Jones, Bod Ifor.

CANOLFAN HAFAN ELAN - Nos lau, Medi 30 treuliodd noson yng nghwmni Mr a Mrs Orwig Roberts, Elidir View. Dangosodd Mr Roberts ddarluniau o'r Wladfa a dynnwyd ar achlysur ei ymweliad â'i wlad enedigol. Cyflwynwyd y darlithydd gan Mr Emrys Owen, Rhif 9 a diolch gan Mrs Williams, Rhif 25.

Pnawn ddydd lau Hydref 7 aeth y trigolion a chyfeillion o'r ardal am daith o amgylch Ynys Môn a chafwyd te yng ngwesty Y Cottage Biwmares. Mwynhawyd y daith yn fawr gan i'r tywydd fod yn hafaidd nos lau, Hydref 14. Cafwyd noson yng nghwmni Mr Griff Roberts, Tai Lôn pan ddangosodd luniau a dynnwyd ganddo ar ei ymweliad ag America a Chanada. Cyflwynwyd Mr Jones gan Mrs D. Jones, Rhif 18 a diolchwyd iddo gan Mrs M. Pritchard, Rhif 4.

Cydymdeimlwn fel cymdogion â Mrs N. Hughes, Rhif 24 yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer. Ar derfyn y gwasanaeth fore Sul yng nghapel Pontrhythallt, gyda'r Parch H. Gwynfa Roberts, Manceinion yn gwasanaethu, bedyddiwyd Thomas Anthony, baban Cynthia a Gareth Roberts, Bro Rhyddallt a Gwion Iwan, baban Gwena ac Iwan Roberts, Pendyffryn, Talybont.

CANLYNIADAU: EISTEDDFOD UNAWD - Dan 4 oed: 1. Sioned, 2. Delyth Humphreys, 3. Elen Jones, Carwyn Lloyd, Iwan Hughes. 4-6: 1. Llŷr Roberts, 2. Gwyn Jones, 3. Sera Thomas, Ryan Jones. 6-8: 1. Lowri Roberts, 2. Gwion ap Llwyd, 3. Meical Owen. 8-10: 1. Ffion Williams, 2. Lowri Williams, 3. Adrian Evans, Iestyn Roberts. 10-12: 1. Elen Roberts, 2. Rebecca Hughes, 3. Emma Bernard. 12-14: 1. Sharon Roberts, 2. Nia Jones. CERDD

DANT - Dan 9: 1. Lowri Williams, 2. Lowri Roberts, 3. Gwenan Mair Roberts. dan 12: 1. Olwen Jones, 2. Elen Roberts. UNAWD Piano - dan 12: 1. Olwen Jones, 2. Elen Roberts. UNAWD offerynnol - dan 12: 1. Graham Williams, 2. Olwen Jones, Sian Jones, 3. Gwenan Roberts, Gwyn B. Thomas. Parti Unsain dan 12: 1. Parti Eleri, 2. Parti Tom, 3. Parti Anwen. Parti recordyddion dan 12: 1. Safon 4, 2. Safon 3, 3. Safon 2. Dawnsio Gwerin dan 12: 1. Parti Iwan Llŷr, 2. Parti Nerys Powell, 3. Parti Bryn Carwyn. UNAWD 12-16: 1. Bethan Haf Price, Garndolbenmaen; 2. Alison Edwards, Llanberis; 3. Jane Parry, Llanberis. 16-21: 1. Rhiannon Pritchard, Llanberis. Deuawd dan 16 oed: 1. Hane Parry ac Alison Edwards, 2. Carys E. Jones a Beryl E. Jones, Y Ffôr, 3. Delyth ac Einir. Deuawd agored: 1. Alum ac Wmffra. UNAWD offeryn dan 19: 1. Gwyn Meirion Roberts, 2. Rhiannon Pritchard, 3. Alison Edwards. UNAWD offerynnol agored: 1. James Jones, Gwyrfa Williams, Llanberis, 2. Gareth Hughes, Llanberis. Emyn dros 50 oed: 1. Dan Williams, Carmel; 2. Katy Wyn, Llandwrog; 3. Gwen Owen, Ithel o'r Ffôr. Cân Werin: 1. Katy Wyn, 2. Gwynfor Y Ffôr. Prif Unawd: 1. Maldwyn Parry, Penygroes, 2. H.J.E. Caesarea, 3. Alum, Wmffa, Dan Williams. UNAWD CERDD Dant dan 21 oed: 1. Bethan Haf Price, 2. Jane Parry, Llanberis, 3. Helen Mai, Nant Peris. CERDD Dant Agored: 1. Gwynfor Y Ffôr. Adrodd dan 4: 1. Delyth Humphreys, Sioned Jones, 2. Elen Jones, Carwyn Lloyd, Iwan Hughes. 4-6: 1. Catherine Griffith, 2. Lynne Schudlak, Llŷr Roberts, 3. Catrin Williams, Delyth Morris, 4. Ceren Roberts, Iwan Owen, 5. Dylan Lloyd Jones. 6-8: 1. Tommi Jones, 2. Lowri Roberts, 3. Meical Owen. 8-10: 1. Iestyn Roberts, 2. Ian Parry, 3. Rhodri ap Llwyd, Ffion Williams. 10-12: 1. Emma Bernard, 2. Nia Lewis, 3. Olwen Jones. 12-14: 1. Dafydd Jones, 2. Louise Bernard, 3. Gwawr Owen. 12-16: 1. Manon Dauncey Williams, Bethel, 2. Carys Ellis Jones, Y Ffôr, 3. Louise Bernard, Gwawr Owen. Prif Adroddiad: 1. Meiriona. Côr Adrodd: 1. Llanrug. Sgets: Ysgol Gynradd Llanrug. Barddoniaeth dan 8 oed: 1. Ceryl Roberts, 2. Gethin Parry, 3. Aled Parry. 8-10: 1. Karen Morrison, 2. Dilwyn Roberts, Anwen Parry, 3. Iestyn Roberts. 10-12: 1. Amlyn Llwyd Evans, 2. Siôn Llwyd Elis, 3. Emma Bernard. 12-14: 1. Louise Bernard. 14-16: 1. Einir Parry. Rhyddiaith dan 8: 1. Gethin Parry, 2. Wayne Jones, 3. Meical Owen. 8-10: 1. Nicola Jones, 2. Anwen Parry, 3. Lowri Williams. 10-12: 1. Karen Jones, 2. Christopher Tilston, 3. Siôn Dafydd Williams. 12-14: Louise Bernard. 14-16: Einir Parry. Telyneg: Mr R.J. Rowlands, Y Bala. Englyn: 1. Mr Einion Evans, Treffynnon a Mr R.O. Williams, Y Bala. Englyn Digri: Mr Einion Evans. Parodi: Mr Byron Howells, Bryngwran. Ysgrif 1. Y Parch Aled Jones Williams, Llanrug; Mr Dewi Tomos, Rhostryfan. Sgets a Teligram: Mrs J. Eirlys Williams, Deiniolen. Gwnio: 1. Nia Griffith, 2. Lowri Roberts, Nia Gwawr. Dan 12: 1. Emma Bernard. Dan 16: 1. Einir Parry. Agored: Mrs Bethanne Williams. Gwau Agored: 1. Mrs Gwenda Roberts, 2. Mrs Menna Wyn Jones, Mrs Gwen Owen, 3. Mrs A. Smith, Mrs Rhydwen Pugh. Cognition dan 12: 1. Gwenno Parry, 2. Nia Griffith, Iola Non Thomas, 3. Sarah Evans, Anwen Parry. Dan 16: 1. Bethan Parry, 2. Einir Parry, 3. Carys Pugh. Agored: 1. Mrs Joyce Jones, Mrs Carys Parry, 2. Mrs Rhydwen Pugh, 3. Mrs E. Whiteside Thomas. Gwneud Gwin: 1. Mrs Margaret Parry, 2. Mrs Bethanne Williams, 3. Mrs Bethanne Williams. Arlunio: 1. Jenny Lee Booth, 2. Gareth

Roberts, 3. Jamie Louise Scase. Dan 4: 1. Lynne, 2. Dylan, 3. Marc, Angela. 4-6: 1. Judith Glaister, Siôn Gardiner, 2. Rowan, Dylan Ll. Jones, 3. Caroline. 6-8: 1. Arwyn Roberts, Tammi Jones, 2. David Morris, 3. Amanda Maloney. 8-10: 1. Adrian Evans, Ffion Williams, 2. Bryn Jones, Nerys Powell, 3. Meirion Williams. 10-12: 1. Emma Bernard, 2. Denise Williams, Siôn Dafydd Williams, 3. Ceren Lloyd, Rebecca Hughes. 12-14: 1. Louise Bernard, 2. Martin Roberts. 14-16: 1. Delyth Fôn Huws, 2. Nigel Wyn Griffith. Tri Dimensiwn: Dan 8: Gethin Parry, 2. Rhys Llwyd Elis, 3. Iola Non Thomas. Dan 12: 1. Siôn Llwyd Elis, 2. Rhodri ap Llwyd, 3. Anwen Parry. Ffotograffiaeth dan 16: 1. Louise Bernard, 2. Gwenno Parry, 3. Einir Parry, Siân Wyn Jones. Agored: 1. Miss Ceridwen Williams, 2. Keith Jones, 3. Miss Ceridwen Williams.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw fodd. Diolch i'r canlynol am eu rhoddion ariannol: Di-enw 60c; Mrs M. Jones, Ogwen, £1; Mr D. Idriswyn £2.50; Mr Islwyn L. Jones, Bryn Moelyn £3; Mr Geraint Huws Roberts, Bangor £10; Ysgol Gynradd Llanrug £10; Chweched Dosbarth Ysgol Brynrefail £10. Ymddangosodd enwau'r cyfranwyr ariannol eraill ar raglen y dydd.

AT GENOD Y DDAWS FLODAU

Fy niolch ichwi, annwyl blant,
Am eich dawnsio del i dant
Y delyn, mewn dwy gadair wyl -
Does neb a wâd, chwi gawsoch hwyl.

Ces groeso prifwyl, do yn wir,
A theyrnged prifardd gofiai'n hir;
Gan dylwyth teg Eryri Wen,
Diolch ichi byth, amen!

R.E. Jones,
Carmel.

SEFYDLU BRYN YN WEINIDOG



Nos Wener, Hydref 15 sefydlwyd y Parch Bryn Williams, B.A., B.D., yn weinidog ar eglwys Bryn Du, Aberffraw a Rhosneigr ym Môn. Mae Bryn, 26 oed, yn fab i Mrs Megan Williams, a'r diweddar Mr R. Williams, Tanygaer, Pontrhythallt. Fe'i addysgwyd yn ysgol Penisarwaun, Ysgol Uwchradd Brynrefail, Coleg Prifysgol Bangor a'r Coleg Diwinyddol Aberystwyth.

Aeth llond bws o bobl o Lanrug i'r cyfarfod sefydlu a gynhaliwyd yng Nghapel Bryn Du, Tŷ Croes.

Dymuniadau gorau'r Eco iddo yn ei swydd a'i ardal newydd.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

LLANBERIS

PROFEDIGAETHAU – Yn ystod y mis mae profedigaeth wedi taro ar ddrysau cartrefi'r ardal yn drwm iawn. Daeth y newyddion am farwolaeth sydyn y Canon Alun Jones yn fraw a dychryn mawr i galon pob un ohonom. Bu mor weithgar a chymwynasgar ar hyd y blynyddoedd, nid yn unig â'i braidd ei hun, ond gyda phawb a phopeth, ymhell ac agos. Roedd yn gymaint cymwynaswr i'r capelwr ag yr ydoedd i'r eglwyswr, ac roedd wedi ennill ei barch fel arweinydd cryf a chadarn i Eglwys Crist. Gwnaeth lawer iawn i'r oeddrannus a'r methedig, a chymerodd ddiddordeb anghyffredin yn y Clwb Pensiynwyr. Mae'r ardal wedi colli ffrind mynwsol, un fydd yn ran o hanes yr ardal hyd byth.

Ar ddiwedd mis Medi yn Ysbyty Gallt y Sil bu farw Mrs Winifred Morris, (gynt o Gwm-y-glo), mam Betty, priod Percy Jones, Plas Coch. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf iddi hithau ar golli ei mam.

Hefyd, collodd Mr Arthur Rogers, Stryd Newton ei fam oedd yn byw yn Lerpwl. Mae Mr Rogers a'i deulu yn byw yma ers rhai blynyddoedd bellach ac yn fawr ei barch gan bawb o'i gydnabod. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf ag ef yn ei golled.

PRIODASAU – Jones - Pritchard – Yng Nghapel Coch, gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu a Mr Hugh Peris Pritchard wrth yr organ priodwyd Elinor, merch Mr a Mrs E.G. Pritchard, 38 Maes Padarn â Myrddin, mab Mrs M. Jones a'r diweddar David Jones, Greuor Villa, Brynrefail. Gweinyddwyd ar y briodferch gan ei chwaer, Veronica, a'r morynion oedd Medwen, Sandra, Claire a Lois. Y gwas priodas oedd Gwynfor Jones. Trefnwyd yr arlwy yng Ngwesty Bron Eryri lle y daeth 63 o wahoddedigion ynghyd.

Treuliwyd y mis mēl yn Llundain. Byddant yn cartrefu yn Rhif 11, Stryd Newton.

Thomas - Davies – Yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris ddydd Sadwrn, Hydref 9, gyda'r Deon Ifor Rees o Fangor yn gwasanaethu, a Mr W. Huxley Thomas wrth yr organ, priodwyd Linda, merch Mary a Gwyrfaï Thomas, Gwynant â Robert Emlyn, mab Mr a Mrs G. Davies, Penygroes. Y gwas priodas oedd Emyr Olsen a'r morynion oedd Glenda, Olwen a Tina.

Daeth tua chant o gyfeillion ynghyd i Westy Gwynedd i ddyfuno'n dda i'r pâr ifanc cyn iddynt gychwyn am Blackpool. Byddant yn cartrefu yn Rhif 11, Stryd yr Wyddfa.

YN YR YSBYTY – Yn Ysbyty Dewi Sant o hyd y mae Mrs Britten, Maes Padarn. Mae Mrs M. Roberts, Maes Padarn yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Wedi ei symud o Ysbyty Minffordd i Ysbyty Môn ac Arfon mae Mrs Katie Williams, Derwen Deg, er cael triniaeth arbennig i'w choes.

Hefyd Iorwerth Roberts, Maes Padarn yntau yn Ysbyty Môn ac Arfon.

Aeth Mrs Nellie Morris, priod y diweddar Ifor Morris, Stryd Turner am driniaeth i Ysbyty Brynhyfryd. Dymunir adferiad llwyr yn fuan iddynt oll.

WEDI GWELLA – Da iawn yw deall fod Wendy, merch hynaf Alan a Maud Jones, Stryd y Dŵr wedi gwella a dychwelyd gartref ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

Hefyd Mr Eurwyn Jones, Delfryn, Stryd Capel Coch wedi derbyn triniaeth ym Mangor, ond wedi dychwelyd gartref ac yn gwella.

DAU GYMRO BACH NEWYDD – Llongyfarchiadau i Ruth a Stanley, mab Mrs Olga Williams, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth mab bychan. Mae Ruth a Stanley wedi cartrefu yn Rhif 4 Bro Glyder, Nant Peris.

Hefyd llongyfarchiadau i Terry a Julie, 5 Stryd Ceunant ar enedigaeth mab bychan, eu baban bach cyntaf. Dyma wneud Betty a William Williams, Stryd yr Wyddfa yn nain a thaid unwaith eto.

DIOLCHIAIDAU – Dymuna Valerie a Colin, Cae Glan yr Afon, Nebo ddiolch i'r teulu, perthnasau a chyfeillion am yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

DATHLU CANT A HANNER O FLYNYDDOEDD YNG NGHAPEL JERUSALEM – Hydref 10 bu'r Annibynwyr yng nghapel Jerusalem Pentre Castell yn dathlu canrif a hanner o addoli yn y capel. Bore Sul dechreuwyd y dathlu gyda phregeth rymus gan y gweinidog y Parch Huw John Hughes.

Plant yr Ysgol Sul a drefnodd gwasanaeth y prynhawn gyda phasiant yn portreadu gwerthoedd y Beibl a'i bwysigrwydd i'r achos yn Jerusalem o 1832 hyd heddiw. Gwir fwynhawyd y cyfarfod. Wedi'r gwasanaeth cynhaliwyd te parti i'r plant a'r aelodau a'r holl gyfeillion a ddaeth ynghyd gyda'r gwahoddedigion, Maer Arfon, y Cynghorydd Francis Jones a'i briod, a phrifathro Ysgol Dolbadarn, Mr John H. Hughes a'i briod. Darperwyd y lluniaeth ardderchog gan ferched yr eglwys.

Yn y cyfarfod nos cynhaliwyd Cymanfa Ganu gyda'r Parch Gwynfor Williams yn llywyddu'r rhan agoriadol. Arweinydd y gân oedd Mr Irfon Ellis a Mr Roberts Lloyd wrth yr organ. Yr unawdydd oedd Rhiannon Pritchard, a gwir fwynhawyd eitemau gan y parti – 'Lleisiau Eryri', dan arweiniad Mrs Lola Sellers a Mrs Ann Pritchard yn cyfeilio. Cafwyd unawd offerynnol gan Mr Gwyn Williams, gynt o Drefor. Diolchwyr i bawb am eu cefnogaeth gan y Parch Huw John Hughes a diweddiwyd drwy weddi gan y Parch Gwynfor Williams.

Nos Lun cafwyd Hanes yr Achos yn gyflawn iawn gan y gweinidog. Daeth y Parch Gareth Watts o'r Barri i wneud ei gyfraniad a chafwyd cipolwg ar 50 mlynedd o weithgarwch yr eglwys gan Mr Alun Roberts sydd wedi cadw'r swydd o ysgrifennydd yr eglwys am 52 mlynedd. Rhoddodd Mr William Roberts, trysorydd yr eglwys, adroddiad ffafriol iawn hefyd. Y bobl ifanc fu'n cymryd y rhan agoriadol. Rhoddodd y cyfarfod hwn glo llewyrchus a boddhaol iawn ar y dathlu.

PENODIAD – Llongyfarchiadau i Eleri Wyn Parry, merch hynaf Mr a Mrs Cledwyn Parry, Min y Don ar ei phenodiad yn ddarlithydd ar Economeg a Gwyddor Tŷ yn y Brifysgol.

PLANT YN DIOLCH – Nid oes un peth yn apelio'n fwy at oedolion na gwrandao plant yn dangos eu dawn mewn addoliad, ac adeg Gŵyl y Diolch a'r Nadolig mae'r plant ar eu gorau. Pleser mawr oedd cael bod yn bresennol mewn dau gyfarfod a'r cyfan gyda'r plant yn cyfrannu.

NANT PADARN – Fore dydd Llun, yn Nant Padarn, trefnwyd cyfarfod gan swyddogion yr Ysgol Sul i holl blant yr eglwys wneud rhyw gyfraniad bach yn y gwasanaeth. Cafwyd darlenniadau deallus iawn, gweddïau syml a chanu tlws ganddynt. Er mai ifanc ydoedd y cwbl ohonynt, roedd eu naturioldeb a'u gonestrwydd yn hudolus. Dyma'r rhai a gymerodd ran

JERUSALEM YN DATHLU



Plant y capel ar brynawn Sul y dathlu.



— A'r swyddogion, sef, o'r chwith i'r dde, Mr R. Lloyd, Mr A. Roberts, y Parch H.J. Hughes a Mr W. Roberts. (Lluniau: I.L. Jones).

yn y rhaglen, Dylan Geraint, Darryl, David, Alan, Bryn, Hayley, Dawn, Sharon, Alwyn, Shon Glyn ac Owain Gethin. Diolchwyd i swyddogion yr Ysgol Sul am hyfforddi'r plant gan Mr Emrys Jones, ysgrifennydd yr eglwys, ac am y rhoddion a ddygwyd gan y plant.

JERUSALEM – Am ddau o'r gloch cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch gan blant y Gobeithlu a gynhelir bob nos Lun drwy'r gaeaf yn Festri Capel Coch. Arweiniwyd y cyfarfod gan y Parch Huw John Hughes, gyda Mrs Evans a'i merch Ann yn cyfeilio. Cafwyd eitemau gan blant Ysgol Sul Jerusalem, a chan blant Ysgol Sul (Capel Coch gynt) Capel y Presbyteriaid. Daeth y plant ag anrhegion amrywiol i'r gwasanaeth ac yna dosbarthwyd hwy yng Nghartref Pen Gwaith.

Rhoddwyd annerchiad i'r plant gan y Parch Marcus Robinson, yr olaf iddo cyn ymadael am ei swydd newydd. Diolchwyd iddo gan y Parch H. John Hughes, ac i'r oll o'r plant am eu cyfraniad gwerthfawr.

SIOMIANT – Rai misoedd yn ôl fe wnaed cais i Gyngor Gwynedd ar ran pensiynwyr yr ardal am 'Fan Croesi i Gerddwyr' rhywle o amgylch y Llythyrdy. Fe wnaed deiseb a chafwyd enwau rhai cannoedd o'r pentrefwyr i gefnogi'r ymdrech. Cafwyd cefnogaeth y Cynghorydd Lleol, Francis Jones, a bu yntau'n gwneud ei orau i hybu'r cais, ond, siomiant a gafodd y pensiynwyr.

Derbyniodd Mrs M. Bryn Hughes, Llywydd Pwyllgor yr Henoed Ilythyr gan Syrffewr y Sir yn egluro nad oedd digon o drafnidiaeth yn symud ar hyd y ffordd fawr i ganiatáu man croesi. Dyma ran o'r llythyr a dderbyniwyd:

"Cyfrifwyd y traffig a'r cerddwyr rhwng 8.00 a.m. a 5.00 p.m. ar ddydd lau, Medi 21. Dangosodd y cyfrif, a wnaethpwyd ar hyd 100 metr o'r ffordd drws nesaf at y Swyddfa Bost, nad oedd llif y traffig cerddwyr yn ddigon i gyfiawnhau darparu croesfan i gerddwyr. Mewn gwirionedd, dim ond traean o'r nifer angenrheidiol a gafwyd." Felly gobeithio fod y pensiynwyr a'r anabl yn deall yn awr na ellir gwneud dim â'r mater ymhellach. Diolch i bawb a

fu'n cefnogi'r ymdrech er na fu llwyddiant iddo.

Y RAS SGWAR – Da iawn ydoedd gweld dwy o enethod yr ardal sef Bethan Hughes, Beech Bank a Rhiannon Pritchard, Stryd Newton yn cymryd rhan yn y rhaglen Y Ras Sgwâr ar Hydref 16, a chawsant hwyl reit dda – dim llawer rhyngddynt a'r buddugwyr. Diolch i chi eich dwy am fentro 'mlaen.

GWEINIDOG YN GADAEI – Ar ddiwedd y mis bydd y Parch Marcus Robinson, gweinidog y Presbyteriaid yn Llanberis a Nant Peris am y pedair blynedd ddiwethaf yn gadael ei swydd fel gweinidog ac yn dechrau swydd newydd fel Caplan i'r Llynges. Bydd yn gadael yr ardal gyda dymuniadau gorau a phob llwyddiant yn y gwaith newydd.

DIOLCH – Dymuna Yvonne, Gloria, Bill a'r teulu ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am eu holl garedigrwydd tuag at Malcolm ar ôl ei ddamwain ddifrifol yn ddiweddar. Diolch i'r meddygon a staff ysbytai Môn ac Arfon, Walton Lerpwl, ac Eryri Caernarfon. Diolch hefyd am y llu cardiau, rhoddion a'r dymuniadau da ac yn arbennig i Menai a Frank am y caredigrwydd di-ben-draw.

Sauna
Gwely Haul
Waccio
Slender
tone

SAUNAMDANI

Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm

**STRYD FAWR
BETHESDA
600140**

DDOE YN ÔL

"Rwy'n mynd!" meddaf wrth fy mhriod. Ni raid i mi egluro ble, gan ei bod yn gwybod fy arferiad dyddiol o gerdded pan fydd y tywydd yn caniatáu. Estyn fy ffon, a theimlo ei gafaeliad llyfn, effaith arfer cyson. Nid o angenrhaid 'rwy'n cario ffon, onid hi fydd fy unig gwmni ar fy nhaith?

"Pam 'dach chi 'isio ffon?" medd rhyw grwt bach wrthyf wedi cyrraedd y briffordd, a gwên fach slei ar ei wyneb. Mae'n siŵr ei fod yn meddwl mai ond pobol analluog oedd i gario ffon. Onid oeddem ni yn blant yn credu mai dim ond "pobol fawr" oedd yn gwisgo "plus fflors" a chario ffon, ond cwmni yw i mi.

Mynd heibio fy hen siop, lle treuliais rhan helaeth o'm hoes, a llu o atgofion yn byrlymu i'm cof. Profiadau hapus, diddan, a chwerrw; yr oll wedi cyfoethogi'm bywyd. Dim mwy o'r prysurdeb, y dywediadau slic, a'r cyfrinachau sydd byth dan glo.

Ymlaen ar hyd y pentref, ambell i "s'mai" neu "how-di-dw", dyna'r cyfan. Cofio am yr hen bentrefwyr, yn hamddena ar ben drws, ac arogl baco "Cymro bach" yn gyffredin yn eich derbyn wrth fynd heibio. 'Roeddent mor barod i rannu rhyw brofiad neilltuol o'u heiddo, ambell i sgwrss ddiddorol, a'ch annog i mewn am banded o de. Nid oedd yr un cartref yn ddiethr i neb, a dim ond "Oes 'ma bobol?" ac i mewn â chi.

Wrth fynd heibio y lawnt daclus, cofiais am yr hen "Siop Fawr", yr adeilad mwyaf yr ardal. Bu hon yn gartref i bob math o fasnach, a newid dwylo aml oedd ei hanes. Bellach, fe'i dymchwelwyd oherwydd cyflwr peryglus yr adeilad. Dim mwyach o'r stelcian, y miri a'r hwyl ar ei phalment pan yn blant.

Ann Jones yn dod i'm cyfarfod, a'r gwedd yn welw fel toes heb ei grasu, yr hen gi yn ei thynnu i bob cyfeiriad, ac ystym ganddi fel un yn gyrru "chariot" yn Rhufain gynt, ond llwyddodd i'w arafu. Wedi'm cyfarch yn foesgar, "Pwy sydd acw tua'r Sul?" meddai, gan gyfeirio tua'r 'Capel Bach'. Minnau'n ateb, gan wybod mai rhywbeth oedd yn perthyn i'r gorffennol oedd y capel iddi mwyach. Ond chwarae teg iddi am barchu swyddogaeth rhyw ychydig o ddiagon.

Wedi dod at y cae chwarae newydd, ffrwyth llw o weithgareddau ac ymdrechion diflino yr ardalwyr, daeth i'm cof y math o gae chwarae, lle y collasom ni afonydd o chwys. Rhyw ddarn o dir ar gwr cors wlyb a llifogydd cyson Afon Seiont wedi methu ei ysgubo ymaith. Dim mwy na hanner can llath sgwâr, heb yr un blewyn yn tyfu arno, tebyg i ben moel, ag ychydig o dyfiant o gwmpas ei gystiau. Hwn oedd "Farrar Road" y "Famous Eleven".

Ymlaen i'r ffordd osgoi newydd, yr hen bellach, wedi ei chau gan lidiart. Sawl un ohonom a dreuliodd oriau lawer i dorri ei enw ar y graig lefn uwch ben "cwt hers". Cofadail i'r genhedlaeth a fu! Yn yr haf, arferem wneud bwndelau twt o rug, a'u lluchio i'r 'charabangs' agored pan elent heibio gydag ymwelwyr, a hwythau'n ymateb gan luchio ceiniogau i'r ffordd ddi-facadam. Gellwch feddwl am anifeiliaid yn

rhythu am ysglyfaeth, y cyntaf a gai'r rhan orau.

Adeiladwyd y ffordd newydd ar yr hen reilffordd, ac wrth fynd heibio'r Fricsan, 'Snowdon' erbyn heddiw, daeth hiraeth am yr hen orsaf, 'Mecca' ein cyfnod ni. Dychmygwn glywed sŵn y trên, a'i gwel yn ymdroelli fel neidr i gyfeiriad yr orsaf.

Mae llawer ohonom yn cofio diwrnod mawr y 'trip', y plant yn yr orsaf oriau cyn amser cychwyn, ac yn gweu trwy'i gilydd fel gwenyn mewn cwch. Wrth gwrs, roedd yn rhaid cael siocled 'Bourville' o'r peiriant gwerthu cyn mynd ar y trên. Y bloeddio a'r chwifio wrth fynd heibio'r pentref. Nid oes dim yn aros o'r orsaf bellach, ond y llwybr oedd yn arwain o'r briffordd i'r orsaf, ac ôl traed yr hen a'r ieuainc wedi eu gorchuddio gan 'darmac'.

Rhaid oedd cefnu ar y rhuthr a'r sŵn byddarol y drafnidiaeth ddi-ddiwedd ar y ffordd newydd, e heibio'r adeiladau newydd y Cyngor Sir i'r hen ffordd lle bu'r ddamwain echrydus 'Powdwr Oil'. Rhan o ffordd lle bu llifogydd cyson yn ei gorchuddio, ac yn creu anhwylostod enbyd i drafnidiaeth, a hwyl i ninnau. Ffordd gerdded yn unig erbyn, a chyfle i rodresa yn hamddenol, ac i gasglu atgofion o ddiddordebau a helyntion y gorffennol. Yna, tros y gamfa i olwg y bont newydd, ond nid oes rhamant yn perthyn i hon, ac ymlaen heb roi fawr o sylw iddi at Bont Penllyn, lle gwelodd R. Williams Parry y ffordd yn wyn.

"A'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr Di-fwstwr ym Mhen Llyn."

Llawer gwaith y cerddais trosti i gyfarfod fy nhad a'm brodyr o'r trên chwarel, a chael brechdan oedd wedi ei chadw ar fy nghyfer o'r tun bwyd, nid am fod angen bwyd arnaf, ond 'roedd blas gwahanol arni.

"Ac arni flas y cynfyd
Yn aros fel hen win."

Hoffem drochi traed dan yr hen bont, a daw eco o sŵn clociau chwarelwyr ar eu ffordd o'r trên chwarel, fel rheng o filwyr ar eu ffordd i'r gad, ac ambell un, fel dafad gloff, yn dilyn yn araf.

Do, fe gerddais trosti lawer gwaith ar fy ffordd i'r Ysgol Sir, heb sylwi llawer nag edmygu gwycheder ac ysblander y golygfeydd ar wahanol gyfnodau tymhorol. Ond yma lawer tro y cwrddais â chyfeillion llengar, a mwynhau sgysiau diddorol, a thrafod pynciau a phroblemau'r dydd.

Aeth fy ffon o'm llaw yng nghanol fy mreuddwydion, a'r funud honno sylweddolais fy unigrwydd. Dim ond sŵn y dŵr yn lithro yn araf ar ei daith tua'r môr.

Ymlaen â mi heibio Craig yr Undeb, man lle sefydlwyd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru mewn cyfnod cyfyng ac enbydus. Diolch am yr arloeswyr a aberthodd gymaint i gael cyfiawnder i lafurwyr ein bro. Heddiw mae coflech ar y graig i goffau'r digwyddiad. Wrth

fynd heibio fe ddown i olwg y twnel, heddiw'n ddim ond lloches i ddefaid crwydredig a chysgod i ambell bysgotwr i ochel cawodydd glawog.

Tros y gamfa i'r ffordd newydd, a chyfeirio tua chartref. I'r chwith, mae'r weiglodd fawr yn ymestyn i'r coed, lle trigai'r tylluannod a glywir o Lwyncoed Cwm-y-glo. Cofiaf am y cynaeafau gwair, a'r wefr a gefais wrth dywys y gaseg a'r drol i'r weiglodd am y tro cyntaf, ond nid

oedd raid imi ei thywys gan ei bod yn gwybod ei ffordd yn well na mi.

Cyrraedd gartref heb gyfarfod â neb i rannu fy atgofion, rhoi fy ffon ar y mur a thynnu fy llaw ar ei hyd, fel rhoi llaw ar ben plentyn i ddangos eich edmygedd ohono. Eistedd mewn cadair esmwyth, a chau fy llygaid, a ddoe yn dod yn ôl fel drama ar lwyfan, a minnau'n rhan ohoni.

"Paned o de." medd fy mhriod. Mae ddoe wedi darford!

PLANT YR AMBIWLANS



Anfonwyd y ddau lun yma gan Mrs Enid Roberts, 56 Maes Padarn. Roedd y bechgyn o dan ofalaeth Meira Bryn Roberts (yr adeg honno), Mrs M.B. Hughes, heddiw, a'r genethod dan ofalaeth y ddiweddar Miss Catherine Ann Gillespie. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn famau a thadau erbyn heddiw, ambell un yn nain a thaid, ac mae eu plant hwythau wedi ymuno â'r frigad leol. Os gwn i a fedrwrch adnabod y 'cadets' smart yma? Fel y dywedodd un neu ddau o'r tadau (erbyn hyn) mae'r llun yn dod ag atgofion hapus a hwyliog iawn i ni.

(Ymddangosodd y lluniau yn rhifyn Hydref 20, 1044 o'r 'Cymro'.)

NANT PERIS

YMDDEOL - Dymuniadau da i Miss Selina Morris, Gardda Bach ar ei hymddeoliad wedi blynyddoedd o wasanaeth i Gwmni Rheilffordd yr Wyddfa. Hir oes iddi i fwynhau'r seibiant.

GWELLA - Balch ydym o groesawu Mrs Prydwen Pritchard, Llys Awel gartref o'r ysbyty wedi triniaeth lawfeddygol, dymunir adferiad llwyr yn fuan iddi.

GENEDIGAETH - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs S. Williams, 4 Bro Glyder ar enedigaeth mab, brawd bach i Dafydd.

DIOLCHGARWCH - Cafwyd cyfarfodydd bendithiol iawn yn Rehoboth ac Eglwys St. Peris ddydd Llun. Gwnaeth y plant yn Rehoboth eu gwaith yn raenus iawn fel arfer dan arweiniad eu hathrawes Ysgol Sul, Mrs J.M. Williams, Pennant. Cydymdeimlir ag aelodau Eglwys St. Peris yn y golled fawr a ddaeth i'r rhan trwy'r trychineb alaethus i'w Rheithor, y Parch Alun Jones.

DYCHWELYD - Hydref 8 cychwynnodd Mr a Mrs Hugh Jones ar y siwrna yn ôl i Sydney, Awstralia ar ôl bron i wyth mis o wyliau yn ymweld â llawer o deulu a chyfeillion ym mhob cwr o Gymru. Buont yn cartrefu y rhan helaeth o'r amser â chwaer a brawd yng nghyfraith Mrs Jones, sef Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant. Dymuna Mr a Mrs Jones ddiolch o galon i bawb am y croeso a'r amser bendigedig a gawsant gydol yr amser. Cafwyd parti ffarwel iddynt yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar y nos Sadwrn a dyma gân a gyflwynwyd iddynt gan gyfaill yn ystod y wledd.

Parodi ar Nico (Cynan)

Neli annwyl, ei di drosodd
Ar y plên o Arfon dlws?
Ei di o wlad yr afr a'r cadno

I gynefin cangarws?

Ydi mae Awstralia'n odiaeth
Er ei bod a'i phen i lawr,
Ond nid ae't pe gwelit heno'r
Dagrau ar yr Wyddfa fawr.

Huw cyn annwyl, aros yma,
Paid â gadael yr hen giang
Aros mwy yng ngwlad y delyn
Ac anghofia'r bwmerang
Wedi gweled eto'r Ceunant
Ei di byth yn ôl mewn Jet,
Pwy ai'n ôl at Aberigino!
Wedi cwmni Now a Bet.

YMADAEL - Syndod i aelodau Rehoboth oedd deall gan eu gweinidog y Parch Marcus W. Robinson ei fod wedi derbyn swydd yn y Llynges fel Caplan ac felly'n gadael yr ofalaeth ddwydd y mis. Bydd y cyfarfod gollwng yn Capel Coch nos Sul Hydref 31 felly ni fydd yna wasanaeth yn Rehoboth am 6. Dymunir popeth gorau i Mr Robinson yn ei swydd newydd a diolchir iddo am ei wasanaeth tra yma yn ein plith.

Wil a Val
Guy

STORFA
TREFLYN
BETHEL

Y Felinheli 670237

Bwydydd Teganau
Diodydd Dafedd
Melysion

DEINIOLLEN

TEYRNGED I
MR MYFYR LEWIS

Gan fod dros bedwar mis wedi mynd heibio ers pan fu farw cyfaill annwyl iawn inni, ardalwyr Deiniolen, dymunaf dalu teyrnged i Mr Myfyr Lewis a'i briod. Bu Mr Lewis yn warden i'r henoed yn Rhydfadog am dros 12 mlynedd. Nid oedd dim yn ormod ganddo i'w wneud. Roedd wedi mynd allan o'i ffordd fwy nag unwaith i wneud cymwynasau di-ri-fedi, er bod ei iechyd ei hun yn ddigon bregus. Mae'r golled yma yn anodd iawn i'w llenwi. Gan fod Mr Myfyr Lewis wedi gweithio am lawer o flynyddoedd yn Ysbyty Môn ac Arfon, gallaf eich sicrhau, os oedd rhywun o'r ardal yn yr ysbyty yn wael, yna byddai Mr Myfyr Lewis wedi ymweld â hwy. Colled fawr i'r ardal oedd colli Myfyr a'i briod a braint fawr i mi oedd bod wedi cael ei adnabod.

Yn gywir iawn,
(Mrs) Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen.

DIOLCHIADAU - Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Sarah Roberts, 27 Hafod Oleu ddiolch o galon i'w theulu, ei ffrindiau, a'i chymdogion am eu holl garedigrwydd tra bu'n yr ysbyty, ac ar ôl dychwelyd gartref, ac am y gofal caredig a dderbyniodd gan Nyrs Marabel. Diolch hefyd am yr arian a'r cardiau a dderbyniodd.

Dymuna Mrs Nelli Hughes, Erw Fair ddiolch i'r ardal am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod y brofedigaeth sydyn o golli ei mab, Mr Owen Jones, 42 Pentre Helen. (Owie Erw Fair fel y'i adwaenwyd). Diolch am yr holl gardiau a dderbyniodd ac am y geiriau o gysu ac am y rhoddion mewn arian.

Dymuna Mr Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu caredigrwydd mawr tuag ato yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon, a hefyd ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff yr ysbyty ac i'r meddyg teulu.

CLWB 200, MIS MEDI - 1. Rhif 133, £25, Miss Carys Williams, Tŷ Capel Disgwylfa; 2. Rhif 78, £15, Mr M. Jones, Minafon, Clwt-y-bont; 3. Rhif 64, £5, Mrs D. Pritchard, 1 Ffordd Deiniol.

HYDREF - 1. Rhif 93, £25, Miss J. Jones, 30 Hafod Oleu; 2. Rhif 8, £15, Mr A. Jones, 8 Stryd Newydd; 3. Rhif 192, £5, Mr E. Williams, 39 Rhydfadog.

Y SEINDORF - Tachwedd 29 bydd y seindorf yn cystadlu yn Nosbarth B yng Ngheir Cona am Bencampwriaeth Gogledd Cymru. Pob dymuniad da iddynt.

MERCHED Y WAWR - Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr nos Lun, Hydref 11 yn y Ganolfan. Llywyddwyd gan Mrs Trevor Lewis. Y wraig wadd oedd Mrs Carolyn Iorwerth, 9 Tai Caradog. Rhoddodd sgwrs ar ei gwaith yn dysgu Cymraeg i'r Saeson. Mwynhawyd ei sgwrs gan oll o'r aelodau. Rhoddwyd y te gan Mrs H.M. Jones, 10 Maes Gwylfa, Mrs Gladys Jones, Tŷ Capel Libanus, Mrs Margaret Thomas, Berthen Gron, Miss Kathleen Jones, Prenteg. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 15 yn y Ganolfan. Ceir sgwrs a ffilm am Rwsia gan Mrs Gwenda Smith o Lanfairfechan.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod pnawn ddydd Mawrth, Hydref 12 yn y clinic. Llywyddwyd gan yr Is-lywydd, Mrs Megan Morris. Pasiwyd cydymdeimlad â theulu Mrs S. Roberts, 27 Hafod Oleu oedd yn aelod selog o Glwb Elidir hyd nes i'w 8

heichyd dorri. Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs W. Parry, 2 Stryd Newydd ar ôl colli perthynas agos yng Ngarndolbenmaen. Rhoddwyd y te gan Mrs Olwen Jones, Lleiniau, Mrs Enid Williams, 3 Tai'r Faenol, Mrs Irene Davies, 63 Pentre Helen a Mrs Gaynor Lewis, 7 Tai Marian. Croesawyd Mrs Mair Lewis, 18 Rhydfadog yn aelod o'r clwb. Anfonwyd ein cofion hefyd at Mrs Maggie Roberts, Maes Eilian, Dinorwig, a Miss L. Thomas, Llidard y Clo sydd ddim yn dda ei hiechyd. Mwynhawyd pnawn hynod o ddifyr pan gafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, gyda Mrs Jane Jones, 3 Stryd Newydd yn cadw'r marciau. Yr enillwyr oedd, Tim B gyda 25 a hanner o farciau a Thim A, 18. Enillwyd y raffl (rhodd gan Mrs Nancy Rowlands) gan Mrs Maggie Morris, 87 Pentre Helen.

EBENESER 'A' - Mewn oedfa nos Sul, Medi 26 derbyniwyd y canlynol yn gyflawn aelodau o'r eglwys: Aled Jones, Marina Marzellos, Siân Lewis, Owen John Parry, Tracey Williams a Gareth Owen. Cyflwynwyd copi o'r 'Caniedydd' iddynt i gofio'r achlysur.

SWYDD NEWYDD - Llongyfarchiadau calonnog iawn i Elfyn Morris, 91 Pentre Helen ar ei waith newydd. Mae Elfyn wedi dechrau ar ei waith newydd efo'r B.B.C. yn Llundain - pob llwyddiant iddo.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU - Mae'r Sul cyntaf yn Hydref yn ddiwrnod arbennig yng nghalendr Eglwysy ardal Deiniolen fel y diwrnod sydd wedi ei neilltuo ganddynt ar gyfer cynnal cyfarfodydd undebol dan nawdd Cymdeithas y Beiblau.

Eleni, capel Brynrefail oedd y gyrchfan, ar Sul 3 Hydref. Roedd y capel yn rhwydd iawn ar gyfer cyfarfod y prynhawn, pryd yn ôl yr arfer, gwelwyd plant Ysgolion Sul Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun ar eu gorau yn cyflwyno adroddiadau a chaneuon ar y thema 'Efengyl Tangnefedd'.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Miss Ellen Wyn Jones, Sardin, Dinorwig, a lwyddodd i osod ei stamp personol ar y gweithgareddau, oedd â'i chyfraniad yn ychwanegiad at effeithiolrwydd a mwynhad cyfarfod cofiadwy.

Y Parch Aled Edwards oedd yn llywyddu'r Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yng nghyfarfod yr hwyr, ac yn ôl ei arfer, cyflawnodd y gwaith yn grynno o gloyw. Cynhaliwyd y Gymanfa fel arbrawf am y tro cyntaf y llynedd, ac roedd y gefnogaeth a'r llwyddiant a fwynhawyd eto eleni yn brawf amlwg fod y Gymanfa bellach am fod yn drefniant parhaol. Roedd y cantorion wrth eu bodd yn ymateb i arweiniad brwd Mr John Jones, Ebenezer, Deiniolen, sydd yn ennill enw da iddo'i hun yn y gymdogaeth fel arweinydd cymanfaeoedd. Cyfraniad neilltuo i'r ddau gyfarfod oedd hwnnw o eiddo Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Mwynhawyd y datganiadau a gyflwynwyd ganddi ar yr organ mewn egwyl neu ddwy yn y cyfarfodydd.

Y GANOLFAN - Cafwyd mwy o roddion i'r Ganolfan gan: Mrs J. Jones, (llestri a hambwrdd) ac hefyd gan Mrs Gwen Hughes (llai i llestri). Diolch o galon i chwi. Dyma'r gweithgareddau sydd yn mynd ymlaen yn y Ganolfan yn ystod y nos -

Nos Lun - Clwb leuenctid; Merched y Wawr; W.I. (misol).

Nos Fawrth - Majorettes; Guides; Keep Fit; St John (plant a phobl).

Nos Fercher - Brownies.

Nos Iau - Cymru'r Groes.

CÔR MEIBION MARTIN OWEN



Diolch i Mrs N. Hughes, Erw Fair, Deiniolen am gael benthyg y llun yma o gôr meibion Martin Owen, Llanberis. Pa flwyddyn oedd hi? A beth oedd yr achlysur (sylwer ar y cwpan). Beth am anfon ychydig o hanes y côr atom yn yr 'Eco'.

Nos Wener - Hydref 29 - Swper i'r Ficer.

Nos Lun - Hydref 25 - Cymdeithas Lenyddol.

Nos Fercher - Tachwedd 10 - Pwyllgor yr Eisteddfod.

Nos Iau - Tachwedd 11 - Awr dawel gan y Majorettes.

Nos Wener - Tachwedd 19 - Noson Goffi gan yr Eglwys.

COLLI DAU YN IFANC - Brawychwyd yr ardal yn ddiweddar gan y

newyddion trist am farwolaeth dau ddyn ifanc.

Bu farw Mr Goronwy Glyn Jones, Glandŵr, Clwt-y-bont yn dilyn damwain ffordd ger Bodelwyddan, Clwyd, ac yntau ar ei ffordd adref o'i waith fel Heddwys ym Manceinion.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Mr Arthur (Tate) Williams, 75 Pentre Helen yn 38 oed.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theuluoedd a chyfeillion y ddau yn eu galar.

RHAGLENNI CYMRAEG HTV I S4C TACHWEDD 1-7

CERDDWN YMLAEN - Dyma'r rhaglen gyntaf a welir ar S4C pan â ar yr awyr ar Dachwedd 1af, sef rhaglen o ganu gwerin gyda Dafydd Iwan ac Ar Log. Hon yw'r gyntaf mewn cyfres o wyth sy'n dwyn ei theitl oddi wrth un o ganeuon Dafydd Iwan. Bydd gwesteion o Gymru a'r gwledydd Celtaidd yn ymddangos.

Nos Fawrth, Tachwedd 2 am 7.30 darlledir y bennod gyntaf o'r ddrama gyfres 26 pennod, 'COLEG'. Bywyd mewn coleg prifysgol (dychmygol) cyfoes. Bydd tua 35 o actorion yn y gyfres a'r mwyafrif yn wynebau newydd i deledu yng Nghymru.

MIL O ALWADAU - Nos Fawrth, Tachwedd 2 am 8 o'r gloch bydd cyfle i weld Huw Geraint, milfeddyg wrth ei waith. Pethau go anarferol yn digwydd - fel ceisio gwella ddannodd eliffant mewn syrca!

SÊR - Nos Fercher, Tachwedd 3 am 7.30 - rhaglen ar ganu cyfoes - apêl arbennig at y rhai yn eu harddegau. Yn y rhaglen gyntaf cyflwynir Meic Stevens a Rocyn. Y cyflwynydd yw Gareth Roberts.

ELINOR YN EWROP - Nos Iau, Tachwedd 4 am 8.45 bydd Elinor Jones yn cychwyn ar ei thaith drwy chwech o wledydd Ewrop ac yn ystod y gyfres bydd yn ymweld â Bwrgwendi yn Ffrainc, Interlaken yn Yswistir, Lwcsembwrg, Colôn yn yr Almaen, Bruges yng Ngwlad Belg a Delft a'r Hâg yn yr Iseldiroedd. Yn y rhaglen gyntaf bydd Elinor yn ein

gwahodd i ymuno gyda hi yng ngŵyl y gwinoedd yn Dijon, Ffrainc.

Bydd rhaglenni materion cyfoes S4C yn trin materion byd-eang yn ogystal ag adlewyrchu sefyllfa gartref. Anaml iawn yn y gorffennol y cafwyd y cyfle ym myd teledu yng Nghymru i ystyried mewn ffordd fanwl yn yr iaith Gymraeg broblemau a digwyddiadau rhyngwladol.

Fel rhan o'i gwasanaeth i S4C bydd HTV yn cynhyrchu tair rhaglen materion cyfoes yr wythnos - Y BYD AR BEDWAR ar nos Sul a nos Fercher, a Y BYD YN EI LE ar nos Wener.

Rhaglen ar ffilm yn trafod un neu ddau o bynciau arbennig fydd Y BYD AR BEDWAR. Gall y ffilm ddod o unrhyw ran o'r byd. Rhaglen stiwdio fydd Y BYD YN EI LE - gyda chynulleidfia gyda safbwynt ar bwnc amserol yn trafod y testun gyda Vaughan Hughes yn y gadair. Nod y rhaglen yw "darparu'r gwylwyr am y penwythnos drwy drafod cwestiwn llosg mewn ffordd ogleisiol". Gwelir Y BYD AR BEDWAR nos Fercher, Tachwedd 3 am 8.30 a nos Sul, Tachwedd 7 am 9.10, a Y BYD YN EI LE nos Wener, am 8.50.

TWYLLOR TEULU - Nos Sadwrn, Tachwedd 6 am 6.30 - gyda Gari Williams wrth y llyw. Cystadleuaeth i weld pa mor dda y mae teuluoedd yn adnabod ei gilydd. Cyfle i ennill gwobrau i fyny hyd at werth mil o bunnau ymhob rhaglen.

O Glwyd ac o Fôn y daw'r ddau deulu cyntaf i herio'i gilydd.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB
MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMBOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Llanberis 872236



CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

1. BEDD OD

Yn hen fynwent Mihangel, Llanrug mae carreg fedd ddiddorol iawn sy'n 250 oed. 'Roedd yn orchwyl pur anodd i ddarllen yr holl arysgrif ar y garreg oherwydd fod amser wedi ei gwisgo'n llyfn, a rhan ohoni wedi ei thorri i ffwrdd. Ond nid yr ysgrifen ar y garreg sy'n ddiddorol, ond yr holl farciau neu sumbolau eraill a gerfiwyd arni.

Mae'n ymddangos mai rhywun o'r enw "... Parry" a gladdwyd yma, ac os yw'r arysgrif yn gywir, dyddiad ei f-marwolaeth oedd 1752, ac yr oedd wedi cyrraedd yr oedran teg o 101. Dyna'r unig ysgrifen ar y garreg.

Y sumbolau eraill sy'n ddiddorol (gweler y diagram). Beth tybed yw ystyr y groes gam a'r ddau ganhwylbren? A beth am yr arch gyda'r llythyren "W" arni. Beth hefyd yw ystyr y ddau sgwâr gyda'r llythyren "M" yn un ac "O" yn y llall? A pha arwyddocâd sydd i'r cylchoedd bychan sydd wedi eu gosod yma ac acw ar y garreg? Maent yn ymddangos yn naturiol ar yr olwg gyntaf, ond o'u hastudio'n fanwl gellir gweld mai dilyn math o batrwm y maent.


Diddorol iawn fyddai cael gwybod a oes ystyr i'r holl sumbolau hyn ynteu ai addurniadau yn unig ydynt. Ni welais garreg fedd debyg iddi yn unrhyw ran arall o'r fynwent, nac mewn mynwent rall yn yr ardal. Oes rhywun all gynnig eglurhad?

2. CYMERIAD HYNOD

Glywodd unrhyw un ohonoch am Jeremiah Roberts, hen gymeriad hynod a oedd yn byw, yn ôl yr hanes, yn ardal Tan y Coed, Llanrug. Ceir ei hanes mewn traethawd a ysgrifennwyd i "Gylchwil Lenyddol Cyfrinfa Glanrhyddallt" 1911 gan William Davies, Bryngwyn, Llanrug.

Mae'n ymddangos ei fod yn byw mewn tŷ un ystafell o'r enw "Tŷ Jerry" a bod ffynnon yng nghefn y tŷ lle byddai'r hen gymeriad yn ymdrochi. Yr oedd yn gymeriad dryslyd ei feddwl, ond eto, yn ôl pob hanes, yn feddru nifer o ieithoedd. Byddai'n cael benthg llyfrau Lladin gan y Parch Peter Bailey Williams.

Baich o eithin oedd ei wely, ac yr oedd ei gob yn glytiau i gyd. Credai fod cythreuliaid yn ei boeni'n y nos, a



byddian' cysgu ym mhorth yr eglwys er mwyn cael llonydd ganddynt.

Dywedir iddo farw yn Nhanybuarth, Llanrug a'i gladdu wrth ymyl yr eglwys lle bu'n treulio cymaint o nosweithiau'n chwilio am heddwch rhag cythreuliaid.

TLWS DYSGWYR Y FLWYDDYN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN

Gwelwn, yn fuan, rowndiau cyntaf cystadleuaeth newydd sbon a fydd, y gobeithir, yn dwyn i sylw'r byd a'r betws lwyddiant a chyfraniad ym mudiad dysgu'r Gymraeg i Oedolion yng Nghymru.

Cynhelir nifer o rowndiau - yn lleol ac yn Genedlaethol a rhoddir cyfle i'r ymgeiswyr sôn am eu profiadau wrth ddysgu'r Gymraeg ac ar y ffordd y mae'r iaith wedi cyfrannu i'w bywydau bob dydd. Disgwylir y ffilmir rhan o'r gystadleuaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg gan HTV Cymru.

Y mae nifer o wobrau mawreddog ar gael i'r enillwyr gan gynnwys Tlws Nant Gwrtheyrn a phenwythnos ym Mharis i'r ddau gyntaf yn y gystadleuaeth a phenwythnos ym Mhlas Maenan i'r ail ac estynnir gwahoddiad cynnes i ymgeiswyr addas (dysgwyr dros 21 oed nad oeddynt yn gallu cynnal sgwrs yn y Gymraeg bum mlynedd yn ôl) neu i diwtoriaid sydd yn awyddus i enwebu YN SYTH am fanylion llawn i Swyddfa'r Eisteddfod, Stâd Ddiwydiannol Môn, Llangefni, Ynys Môn (Ffôn: (0248) 724444).

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i noddwyr y Gystadleuaeth - HTV Cymru, Mrs Enid Watcyn Jones, Mr Alan Wyn Jones ac Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn am eu cydweithrediad parod.

APÊL AR RAN LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Eleni, ar bymthegfed pen-blwydd a thrigain caniatâu iddi ei Siarter Frenhinol, y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n apelio at y rhai sy'n ewyllysio'n dda tuag ati am gyfraniadau ariannol a fydd yn ei galluogi i wella'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i'r cyhoedd. Cynhelir y Llyfrgell gan y Trysorlys drwy'r Swyddfa Gymreig. Yn y dyddiau yma nid yw'r cymhorthdal a estynnir gan y Llywodraeth yn ddigon ar gyfer y math o wasanaeth a dymuna'r Llyfrgell ei ddarparu ar gyfer ei ddefnyddwyr. Ni all ychwaith ymgymryd â datblygiadau newydd sydd, yn ei barn hi, yn dra angenrheidiol. Ar wahân i bwrpasau cyffredinol y Llyfrgell, y mae cynlluniau arbennig y gellid neilltuo ffrwyth yr apêl ar eu cyfer. Gellir disgrifio'r rhain yn fras fel a ganlyn:

1. Sefydlu Canolfan Wybodaeth Fasnachol a Thechnolegol ar gyfer busnes a diwydiant yng Nghymru.
2. Sefydlu Archif Wleidyddol Gymreig y gellid trwyddo gael mynediad i'r holl ddeunydd printiedig sy'n deillio o weithgarwch y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru.
3. Helaethu ac Arddangos yn briodol ei chasgliad o Bortreadau, mewn gwahanol gyfryngau, o wŷr a gwagedd o Gymry o bob cefndir cymdeithasol.
4. Prynu microffilmiau o bob llawysgrif lenyddol Gymraeg a Chymreig ac o bob papur lleol - nad ydynt eisoes yn ei meddiant.
5. Sefydlu un neu ddwy o Gymrodoriaethau.
6. Prynu periannau ffoto argraffu modern er mwyn galluogi'r llyfrgell i ehangu'n sylweddol ei rhaglen gyhoeddol.

Ar gyfer yr apêl, ac fel cymhelliad i roddwyr posibl cyhoeddwyd atgynhyrchiad mewn argraffiad cyfyngiedig (250) o'r llun olew "Ffermyr ar y Gluder Fach" gan Kyffin Williams. Mae dewis o dri dull o dalu. Am wybodaeth bellach, cysyllter â'r Ysgrifennydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (Ffôn (0970 3816).

CYNLLUN SWYDDI EWROPEAIDD I ARFON

Ddechrau mis Hydref cyhoeddwyd fod Cyngor Bwrdeisdref Arfon wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd am gymorth ariannol i sefydlu cynllun hyfforddi mewn swyddi bobl ieuainc.

Cynorthwyo ieuencid yn yr oedran 16-25 na fu byth â swydd yw bwriad y cynllun. Mae'r categori yma yn cynnwys rhai sydd newydd adael yr ysgol, rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am beth amser ac hefyd, er enghraifft, graddiedig sydd heb brofiad o weithio. Bydd y cyflogwyr sy'n darparu swyddi ac iddynt lefel o hyfforddi yn derbyn cymhorthdal o rhyw £16 yr wythnos am bob gweithiwr dros gyfnod o flwyddyn.

Nid yw'r manylion llawn ar gael ar hyn o bryd gan nad yw'r caniatâd ffurfiol wedi ei dderbyn o Frwsel hyd yma. Fodd bynnag, disgwylir y bydd yn bosibl i greu 25 o swyddi yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu. Bydd ffurf y cynllu yn y blynyddoedd dilynol yn dibynnu llawer ar brofiad y cyfnod hwn.

Fe fydd y Cynllun newydd yn ategu'r ddarpariaeth ar gyfer cymhorthdal i Fusnesau Bach, sydd hefyd wedi ei noddi gan y Gronfa Gymdeithasol, ac a weithredir eisoes gan holl awdurdodau lleol Gwynedd, ond dim ond cyflogwyr o Fwrdeisdref Arfon a gweithwyr yn trigo o fewn y Fwrdeisdref fydd â'r gallu i fanteisio ar y cymhorthdaliadau ychwanegol. Os am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Prif Swyddog Cynllunio, Cwellyn, Ffordd Llanberis, Caernarfon. (Ffôn 4522).

PERERINDOD CYMDEITHAS Y CYMOD

Bwriada rhai o aelodau Cymdeithas y Cymod ymffurfio'n gadwyn i gerdded o Gaergybi i Dyddewi, ar ddydd **SADWRN, TACHWEDD 6** eleni.

Taith nodedig yw hon i fod, ac y mae iddi ddau amcan, sef dwyn tystiolaeth o oblygiadau heddychol yr Efengyl i'r eglwysi, ar y naill law, a chodi arian i hyrwyddo gwaith y Gymdeithas, ar y llaw arall. Ni ddisgwylir i neb gerdded mwy na deng milltir o'r daith. Gellir cefnogi'r amcan mewn gwahanol ffyrdd. Yn gyntaf, y mae croeso i bwy bynnag sy'n dymuno cerdded, on ar wahân i hynny, bydd angen rhai i gasglu enwau noddwyr a rhai i ddod â cherbydau ac i gynorthwyo'r pererinion yn ôl y galw. Bydd trefnyddion y rhanbarthau a'r ysgrifennydd yn falch iawn o glywed oddi wrth unrhyw berson a garai gynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Enwau'r trefnyddion a'u cyfeiriadau yw:

Y Parch Ronald Williams, Llety'r Bugail, Ffordd y Gogledd, Caernarfon; Y Parch Hywel Wyn Richards, Ardwyn, Dolgellau; Y Parch Robin Samuel, Y Mans, Tre-lech, Dyfed; Miss Nia Rhosier, 14 Kenilworth House, Castle Court, Stryd Westgate, Caerdydd.

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r Parch Ganon Dewi Thomas, Y Ficerdy, Llanilar, Aberystwyth.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn:
LLANBERIS 872285
NEU 871327

J C B 3C

I'W LOGI

R. VAUGHAN
1 TERAS CAMBRIAN
LLANBERIS, GWYNEDD
FFÔN: LLANBERIS (0286)
871348



06190 – O CHWECH I NAW DEG!



**Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
DYFRIN
Y
DEWIN**

CASGLU CERRIG

Sut i adnabod y gwahanol gerrig?

Wedi i chwi fod yn casglu, ac ar ôl cario'r holl wahanol samplau adref, y dasg yn awr fydd penderfynu pa fath o garreg sydd gennych. Bydd yn rhaid glanhau llawer ohonynt, a thorri eraill i'w cael yn ddigon bychan i ffitio i'ch cwpwrdd bocsus matsus.

Pediwch a defnyddio brwsh weiren i'w glanhau. Mae rhai cerrig yn ddigon meddal i gael eu difetha gan frwsh weiren. Rhowch y cerrig mewn bwced yn llawn o ddŵr cynnes ac ychydig o sebon, a'u sgwrnio'n dda efo hen frwsh dannedd.

Ar ôl eu glanhau bydd yn haws adnabod y cerrig, ond hyd yn oed wedyn, bydd yn rhaid torri rhai ohonynt er mwyn cael **wyneb** y garreg. Gellir torri'r cerrig meddalaf gyda morthwyl a chŷn – ond cymerwch bwyll rhag ofn i sglodion cerrig neidio i'ch wyneb! Mae'n syniad da rhoi clwt trwchus am y garreg cyn ei thorri. Bydd y clwt yn arbed unrhyw sglodion cerrig rhag sboncio.

Gellir adnabod y cerrig yn ôl:

1. Lliw

Gall fod yn gamarweiniol iawn ceisio adnabod mineralau wrth eu lliw yn unig, oherwydd mae llawer ohonynt i'w cael mewn gwahanol liwiau, e.e. **qurtz** sydd fel arfer yn wyn, ond weithiau'n binc, gwyrdd, brown neu hyd yn oed ddu.

Mae lliw sylfaenol y mineral yn fwy tebygol o ddangos yn y powdwr yn dilyn y prawf gyda'r ffeil (penderfynu caledwch).

2. Sglein

Nid oes glein yn perthyn i rai mineralau, oherwydd maent yn ddwl, e.e., sialc. Ond mae eraill yn rhoi sglein fel gwydr. Mae rhai yn sgleinio ond yn gymylog, ac eraill yn rhoi sglein fel lliw llefrith. Sglein fel metel sydd ar amryw, ac y mae ambell un fel sidan a rhai fel cŵyr, e.e., amber ac opal.

3. Llychwin

Mewn llawer o fineralau metel mae'r lliw neu'r sglein yn aml wedi ei lychwino, a hynny'n aml oherwydd effaith y tywydd ar y garreg. Gall y llychwin hwn roi cymorth i benderfynu pa garreg ydyw, e.e., mae carreg yn cynnwys copr yn rhoi lliw gwyrdd neu las.

Y BWYTAWR MORGRUG

Mae tafod y creadur hir-drwynog hwn yn anhygoel o hir, a gall gyrraedd hyd o 24 modfedd (neu 60cm) – dros hanner hyd ei gorff. Meddyliwch am gael tafod yn cyrraedd hyd eich botwm bol!

Mae arno angen tafod mor hir oherwydd ei fod yn byw ar forgrug a'u gwahanol berthnasau. Ar y tafod mae glud sy'n casglu'r morgrug wrth iddo wthio'i dafod i mewn i'w nythod.

Mae ei ewinedd traed yn anferth hefyd, ac yn gryf iawn, oherwydd bydd yn eu defnyddio i grafu'r pridd er mwyn codi'r morgrug o'u nyth. Mae ei ewinedd mor werthfawr iddo, fel ei fod yn cerdded ar ei figyrnau i'w harbed.



4. Hollt

Mae gwahanol gerrig yn hollti'n wahanol a dyma un o'r ffyrdd pwysicaf o ddarganfod pa garreg sydd yn eich meddiant. Mae rhai yn hollti fel llechen, ond mae eraill yn hollti'n hollol ddi-siâp. Dyma rai o'r mineralau cyffredin sy'n dangos hollt dda:

Felspar – hollti'n welyau.

Mica – hollti'n dameidiau tenau, llyfn.

Calcite – hollti mewn blociau.

Fluorite – hollti fel pyramidiau dwbl.

5. Siap crisialau – cawn drafodaeth lawn arno y mis nesaf.

JÔC Y MIS

Ar un cyfnod roedd jocs eliffantod yn boblogaidd iawn.

Dyma rai ohonynt:

1. Pam mae eliffant yn gwisgo trowsus byr?

I gael teithio ar fws am hanner pris.

2. Sut mae cael pedwar eliffant i gar?

Dau'n y cefn a dau'n y blaen.

3. Sut y gwyddoch chi fod eliffant wedi bod yn eich cwpwrdd bwyd?


Ôl ei draed yn y menyn.

4. Sut mae eliffant yn cuddio mewn ceirios?

Peintio ei ewinedd yn goch.

5. Sut mae cael pump eliffant i gar?

Fedrwch chi ddim, mae pedwar yno'n barod.



Sut i dorri'r garreg heb i'r sglodion miniog neidio i bob man. Mae clwt am y garreg.

SCIPIAU TIM




o £16

**CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL**

LLANBERIS 871354


**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

ANIFEILIAID OD



LLUN I'W LIWIO

A'r chwaraeon y Gymanwlad wedi gorffen, mae'r creadur bach hwn yn anelu am y rhai nesaf yng Nghaeredin.



TAI A CHARTREFI

Y	D	M	R	E	FF	T	C
N	FF	O	P	T	M	A	A
Y	R	L	C	A	R	L	S
T	A	A	W	A	B	FF	T
S	U	G	F	L	B	E	E
E	I	A	L	A	G	A	L
W	N	Ch	A	W	T	I	N
G	L	E	T	S	O	H	T

Mae deuddeg o enwau wedi eu cuddio yn y sgwâr uchod. Maent i gyd yn enwau ar dai a chartrefi, ond nid o'r wlad hon yn angenrheidiol. Chwiliwch amdanynt heb edrych ar yr atebion.

ATEBION: WIGAN, PABELL, CARAFAN, IGLW, GWESTY, HOSTEL, TAFARN, CASTELL, PLAS, FFERMDY, FFLAT, CABAN.



BECWS DEINIOLLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD


CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm

AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)



GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

TOM TŶ POWDWR gan Goronwy Owen

"Cer yn ôl, a rho'r slippers 'na am dy draed."

Llais awdurdodol fy Yncl Tom. 'Doedd dim anufudd-dod yn bod yn ein teulu ni tuag at yr oedolion. 'Roedd parch y pryd hynny'n golygu parch. Troais yn ôl at y drws, lle 'roedd dau neu dri phâr o "goloshies" mawr rwber wedi'u gosod. Wedi'r cwbl, 'roeddwn yn cerdded i mewn i fan gwaharddedig. Droeon y cerddais heibio Tŷ Powdwr, ac er mai fy ewythr oedd yn edrych ar ôl y lle a'i gynnwys, 'doeddwn i 'rioed hyd y diwrnod hwnnw, wedi meiddio mynd trwy'r drws.

'Roedd Yncl Tom yn wahanol i bawb, rhywsut. Hen lanc ydoedd yn byw gyda'i chwaer yn tŷ ucha Llainwen. Fe oedd y tala a'r hyna o'r brodyr, ac yn cario ei hun yn syth fel procer bob amser. 'Roedd en' un o'r rhai cynnara yn cychwyn am y chwarel bob bore, - mynd tua chwech o'r gloch o'r tŷ, drwy Pant Afon ac heibio Capel Coch, tra 'roedd y dynion eraill i gyd yn cerdded lawr heibio tŷ ni a thros Pen Graig. Byddwn yn gorwedd yn fy ngwely yn gwrando ac yn 'nabod sŵn pob esgid, John Jones, PenTwill, fy Yncl Wil, Ifan brawd Doris, Harri Parri, Jeffra Roberts, Wil Meic a dynion Llainwen Ucha. Tra tyrrai pawb arall i'r twll neu'r wal neu'r sied, ai ef heibio'r ysbty, trwy goed Fachwen i unigrwydd Tŷ Powdwr, lle 'roedd Bob, bachgen ifanc o Ddeiniolen yn cydweithio ag ef. Eisteddai'r ddau ar deunydd ffrwydriad aruthrol heb ddangos ofn na phryder, a dim ond i nôl defnyddiau saethu y deuai chwarelwyr eraill atynt.

'Roedd Tom, fel y dywedais, yn byw gyda Jane ei chwaer. Torodd hi ei chlun wrth chwarae ger Llwyn Dyrys, pan oedd yn chwech oed, a threuliodd y gweddill o'i hoes yn gwisgo hen haern cas am ei choes. Heddiw, fyddai hi ddim yn broblem ei gwella hi'n holliach, ond 'roedd hyn gan mlynedd neu fwy yn ôl, a meddyginiaeth yn gyntefig eithriadol. Unwaith erioed y gwelais hi'n dod i lawr y stryd i'n tŷ ni - 'roedd mynd yn ôl i fyny'r allt yn ormod iddi, ond cadwai'r tŷ fel pin mewn papur. 'Roedd llechi'r llawr yn sgleinio o dan y matiau rags, a'r ddau gloc mawr a'r dresel yn gwrido hefo saim pen elin. Y teulu oedd yn gwneud pob neges iddi. Droeon ar amser cinio, byddai'n gofyn i mi redeg lawr i'r pentre i nôl rhywbeth bach, ac 'roedd 'na sglaffan o deisen gyrrants i mi, pan ddown yn ôl.

Rhyw ddwy gyda'r nos bob wythnos, gwisgai f'ewythr ei glôs pen-glin o frethyn cartre. Deuai i


lawr y stryd heibio ni hogiau yn chwarae pêl ym Mhant Du. Wyddwn i ddim am flynyddoedd i ble yr âi, ond pan ddes i'n hŷn, cefais wybod. Mynd i garu 'roedd o. Merch ganol oed yn byw ar ben ei hun gyda'i chathod mewn tŷ mawr yn Lôn Bost ydoedd hi.

Siaradai Gymraeg Seisnigaidd, ac yn yr amser byr y deuais i i'w 'nabod cefais hi yn foneddigaidd dros ben. Na, fuo 'na ddim priodas. Aros gartre i ofalu am Jane ei chwaer wnaeth o, a bu'r ddwy farw o'i flaen ac yn agos i'w gilydd. Heddiw byddai peth fel hyn yn ddeunydd stori rhamant, ond cymerai pawb ef yn rhywbeth digon cyffredin bryd hynny.

Wedi i mi wisgo'r "goloshies" am fy nhraed, cefais fynd at y cownter. Pwyntiodd allan i mi y llawr a'r waliau coed heb ddim hoelen yn dangos ei phen yn unman; y blychau o dan ei ofal ar y sillfoedd, ac enw pob peth yn eglur i'w weld. 'Roedd o'n falch i mi droi i mewn. 'Roedd hi bron yn amser mynd gartre, dim llawer o siawns i'r meistri ddod, ac fel pob chwarelwr, ymfalchia yn ei waith, a hoffai rannu'i wybodaeth. Aeth ati i gloi bob man tu fewn, clo'i'r drysau trwm ac yna y dorau cadarn yn y wal uchel o amgylch yr adeilad, cyn cychwyn i lawr trwy'r coed.

Cerddais adre yn ei gwmni, yn siarad am y peth yma a'r llall. 'Roedd ei wybodaeth am fywyd natur yr ardal yn eang. Yn ŵr ifanc, arferai fynd allan i saethu llwynogod a chwingod, ond yn y blynyddoedd olaf, ei bleser oedd mynychu bob ocsiwn y gallai, a pherchenogai fân hen drysorau, hen lestri a hen lyfrau - hen lyfrau a roddodd lawer o bleser i mi, pan fyddai fy rhieni yn troi i mewn am sgwrs, ar y ffordd adre o'r capel ar nos Sul.

Hanner brawd oedd o i 'nhad, ond 'roedd y ddau yn gyfeillion mawr. Pob nos Iau cyn Cyfri Mawr, ai 'nhad ato i'w helpu hefo'r llyfrau gwaith. Rhaid oedd i'r chwarelwr



dalau am bob peth a ddefnyddiai yn ei waith, felly cadwai f'ewythr gyfrif am bob modfedd o ffiws, pob owns o bowdwr saethu, pob capsan a phob mymryn o "gelignite". Bore wedyn caria lyfrau clir ac eglur i'r Offis Fawr, ac ni chlywais i erioed amheuaeth, ynghylch eu cywirdeb. Dyn distaw, cyfrifol, caredig ydoedd.

Ar ddechrau pob tymor, cyn dychwelyd i'r coleg, awn i ffarwelio

ag ef, - ie, ffarweilio cyn mynd i Fangor. Cawn ef yn ddieithriad yn hanner gorwedd ar y sofffa o dan y ffenestr, a llyfr agored yn ei law. Ar ôl sgwrsio tipyn, byddai'n rhoi papur chweugain yn fy llaw ac yn fy siarsio'n ddifrifol, "Gweithia di dy orau, a phaid ti a gwario hwn ar ferched drwg sir Fôn."

Wnes i erioed feddwl gofyn iddo gawn i ei wario ar ferched drwg sir Gaernarfon.

YMGYRCH DIARFOGI NIWCLIAR

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, dosbarthwyd dros 10,000 o daflenni o dŷ i dŷ yn Arfon. Taflenni wedi eu paratoi gan Gangen Dyffryn Nantlle o Y.D.N. Cymru ydynt, ac y maent yn esbonio'n syml, ac yn rhybuddio rhag erchyllterau rhyfel niwcliar. Mae 4,000 wedi eu dosbarthu yng nghylch Caernarfon, a 3,000 yr un yn Nyffryn Nantlle a Dyffryn Peris. Bwriedir dosbarthu taflenni eraill o fewn y misoedd nesaf, a bydd un ai Cangen Caernarfon neu Gangen Dyffryn Peris o Y.D.N. Cymru yn gyfrifol am eu paratoi. Bwriad yr ymgyrch ddiweddaraf hon yw dod ag erchyllterau'r bom niwcliar i sylw pob un yn y gymdeithas; a thrwy hynny, ennyn pobl i brotestio ynglŷn â'r gwariant gwirion ar arfau rhyfel ym Mhrydain a gwledydd eraill y byd.

Yn y daflen ddiweddaraf, mae gwybodaeth am effaith bom niwcliar pe bai'r disgyn ar Y Fali ym Môn; cawn neges gan feddyg

lleol, a datganiad gan Dafydd Wigley, A.S., yn honni mai'r frwydr rhag arfau niwcliar yw'r "frwydr bwysicaf sy'n wynebu ein cenhedlaeth."

Os na chawsoch daflen yn eich tŷ chwi, ac os hoffech wybod mwy am y frwydr yn erbyn arfau niwcliar, yna cysylltwch â Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 3838).

£1,500 ODDI WRTH Y CYNGHORAU

Yn dilyn apêl at holl gynghorau cymuned Gwynedd mae Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn wedi derbyn dros £1,500.

Dywedodd Gwyn Williams, trefnydd Cyrsiau Nant Gwrtheyrn, fod "yr ymateb yn adlewyrchiad ymarferol o'r gefnogaeth eang sydd i'r Ganolfan. 'Rydym yn cydnabod,' meddai, "y cyfyngiadau ariannol sydd ar gynghorau y dyddiau hyn a felly gwerthfawrogn haelioni y cynghorau hyn."

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

STORFA

Mace

O.R. & M.
PARRY

Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU

T. CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: Llanberis
870205

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

ADEILADU YSGOL



Diolch i Mrs C.M. Roberts, Mynytho am anfon y llun yma inni o weithwyr yn adeiladu ysgol Llanberis yn y tridegau. Dywed Mrs Roberts mai ei thad, John Owen Roberts, saer coed, sy'n sefyll, yr ail o'r chwith, yn yr ail res.

Ydi, Mrs Roberts, mae'r llun o ddiddordeb inni a bydd yn sicr o ddenu atgofion am yr achlysur a'r cyfnod.

ER COF ANNWYL AM Y CANON ALUN JONES

Mae rhai pobl yn sefyll allan fel "cymeriad" mewn cymdeithas. Un o'r rhai hynny oedd ein parchedig reithor y Canon Alun Jones. Gŵr bonheddig, galluog a roddodd ei oes i waith yr eglwys yma yn y plwyf, yn yr esgobaeth ac yng Nghymru gyfan. Yr oedd yn fawr ei barch gan bawb yn yr ardal, yn barod ei gymwynas, yn ddoeth ei gyngor ac yn gryf ei ddaliadau dros y pethau gorau mewn bywyd.

Yr oedd yn ymroddedig i'w waith – ybair diwrnod yn lladd ei lles eraill. Clywais ef yn dweud lawer tro, "Mi fydda i yn brysur bob amser."

Bellach, gallwn ninnau ddweud yng ngeiriau'r emynydd:

Daeth dy ddiwyd waith i ben
Gorffwys mwy, lafurwr blin,
Coron gei tu hwnt i'r llen
Wedi'r gad a chlwyfau'r drin.

Engyl nef a'th ddwg i'r wlad
Lle mae tyrau Salem wiw,
Gan dy dywys uwch bob brad,
I baradwys wen ein Duw.

Wrth y porth yn gwylio, mae
Y merthron yn ddi-ri,
Wedi dianc uwch bob gwae
Croeso parod ront i ti.

Ceraint a chyfeillion cu,
Yn y wlad o fythol hedd,
Ddaw i'th gwrdd, yn llawen lu
Uwch wylofain prudd a'r bedd.

Gorffwys mwy; pyrth uffern draw
Ni wnad niwad byth i ti,
Ceidwad mawr eneidiau ddaw,
Ac i'r nef fe'th dywys di.

Llwch i'r llwch – a ninnau'n brudd
Ydyw'r geiriau yma'n awr
Ond diymod yw ein ffydd
Yn yr Atgyfodiad mawr.

Diolch am y fraint o gael ei adnabod, am ei gyngor parod, a'i gymwynasau lu, am ei wên, ei hiwmor a'i bersonoliaeth hawddgar, am ei deyrngarwch ac yn bennaf oll am fod yn "ffrind".

O'i adnabod, gallaf sicrhau beth oedd yn ei feddwl yn ystod y munudau olaf ei fywyd:

"Maddau iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur."

Dwys fu ei ddoluriau

Yn yr ornest fawr,

Feddyg da, rho d'ennaint

Ar ei glwyfau'n awr.

"Boed i'w enaid, trwy ras a

thrugaredd yr Arglwydd –

huno mewn hedd."

(Aelod o Eglwys St. Padarn)

TROEDIGAETH Y MEDDWYN

Âr hotel 'rwy'n ffarwelio – nid yfaf

Mewn llwfan trwm:

Ei â mi'n dafn (arw y tro)

I'r fonwent, cyn 'raf yno.

O BANTRI BETH



Rhaid diolch am y riset yma i Eirianwen Thomas.

BARA BRITH

1 pwys o ffrwyth cymysg

4 owns o fargarin

8 owns o siwgr gwyn

2 owns o geirios

2 owns o gnau

1 peint o lefrith

1 pwys o flawd a 2 lond llwy de o bicarbonate o soda

Rhowch y cynhwysion i gyd ond y blawd a'r bicarb mewn sosban. Torrwch y berw a'i fud ferwi am bum munud. Ar ôl iddo oeri, ychwanegwch y blawd a'r bicarb a'i roi mewn dau dun.

Pobwch am awr a hanner ar nwy 4.

TORTH O FEWN TORTH

Dwi'n dal i ddefnyddio tomatos o'r tŷ gwydr a dyma ffordd anghyffredin o'u defnyddio.

1 dorth fach gron

2 owns o fargarin wedi toddi

Y STWFFIN

1 pwys o friwgig (mince)

hanner pwys o nionod wedi eu malu

8 owns o domatos heb groen

2 owns o friwsion o'r dorth

llond llwy de o halen

llond llwy fwrdd o saws Caerwrangon

Torrwch y top o'r dorth a thynnu'r canol (gofalwch gadw 2 owns o'r briwsion)

Urwch y dorth oddi fewn ac allan efo'r margarin

Ffriwch y nionod am 5 munud.

Ychwanegwch y briwgig. Wedyn y tomaos, briwsion, halen a'r saws a'i gymysgu'n dda.

Rhowch y stwffin yn y dorth a rhowch y clawr yn ôl ar y dorth.

Lapiwch y dorth mewn 'foil' a'i chrasu mewn popty am awr a thri chwarter. Nwy 4. Agorwch y parsel

am y 15 munud ola'.

Y DIWEDDAR WILLIAM JOHN JONES, TALMIGNEDD

Medi 26 bu farw Mr William John Jones, neu Wil John Talmignedd, fel yr adnabyddwyd ef gan lu o drigolion y fro.

Ganwyd ef ym Mrynffynnon, Ceunant, Llanrug, yn un o chwech o blant y diweddar John Richard Jones a Katie Jones. Tra yn y Ceunant bu'n amaethu a chwarela. Treuliodd gyfnod yn Llanberis cyn symud i fyw i Talmignedd Isaf yn Nyffryn Nantlle. Er treulio y rhan helaeth o'i oes yno siaradai yn aml am ei gynefin bore oes.

'Roedd bod yng nghwmni Wil John yn brofiad bythgofiadwy.

'Roedd maes ei sgwrsio'n eang oherwydd iddo wneud yn fawr o'i fywyd gan ddefnyddio ei amryw ddoniau i gyfoethogi'r gymdeithas Gymreig. Bendithiwyd ef â llais tenor hyfryd ac ar ôl cystadlu yn frwd mewn llu o eisteddfodau daeth, yng nghwrs amser, yn unawdydd adnabyddus iawn.

'Roedd o hefyd yn fardd gwlad o safon aruchel ac yn llenor praff a thruoedi na wllodd unrhyw gyhoeddwr ei ffordd yn glir i gyhoeddi peth o'i waith. Wedi'r cyfan, y ni, y werin Gymraeg, fydd ar ein colled.

Cyfrannodd yn helaeth i golofnau'r 'Eco' yn ystod y dyddiau cynnar. 'Roedd yn gwmniwr heb ei fath. 'Roedd drws y tŷ bob amser yn agored led y pen, ac aelwyd Talmignedd wedi ei chynesu i unrhyw un hoffai dreulio orig (neu oriau weithiau) i sgwrsio am y 'Pethe'. A dyna pahan fod capel bach Drws y Coed, a gynhaliai ac a garai mor angerddol, ar nawnddydd o Fedi, yn orlawn. Yno y casglodd y teulu a myrdd o ffrindiau o bellteroedd gwlad i dalu y deyrnged olaf, ac er bod ias yr hydref ym min awel Drws y Coed, teimlai amryw, fel y bardd o'r un dyffryn, mai "marw i fyw y mae yr haf o hyd" – a byw hefyd fydd Wil John yng nghof a chalon pawb a gafodd y fraint o'i adnabod.

Derbyniasom yr enghraifft isod o waith W.J. Jones – sef emyn a gyfansoddodd ar gyfer achlysur bedyddio Meleri Haf, ei wyres fach, merch Gwynfor ac Elen Ellis, Bethel, ddiwedd Awst eleni.

Cyflwynaf di fy maban gwyn
I freichiau'r Bugail mawyn
Ddiodeffodd drosot ar y bryn
Heb unwaith ddweud ei gŵyn.

Coffleidia'r Bugail da ei wŷn
Yn gynnes yn Ei gôl,

Fe roes Ei fywyd er eu mwyn
A thros bechadur ffôl.

'Rwy'ti, fy mhientyn, heddiw'n lân
Heb bechod yn dy fron:
Boed purdeb bywyd yn dy gân
Tra teithi'r ddaear hon.

Dy gynnar fywyd fo yn hardd
Mewn peraidy rin a moes:
Yn lliwgar flodyn tyf yng ngardd
Y Gŵr fu ar y Groes.
(Y diweddar W.J. Jones,
Talmignedd, Nantlle)

ATODIAD BETHEL

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn gan y gangen leol o Sefydliad y Merched yn y Neuadd Medi 26. Gwnaed elw o £97.35 at gronfa'r gangen. Diolch i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Cynhaliwyd Cyfarfod Misol y Sefydliad yn yr Ysgol Hydref 14 gydag arddangosfa goginio gan Mrs Ann Hughes, Ty'n y Maes. Diolchwyd iddi gan Mrs Beti Jones, Pen-y-Buarth a'r gwestwragedd oedd Mrs H.L. Hughes a Miss Katie Morris, Penrhos.

CYNEFIN

CYLCHGRAWN NATUR
I'R TEULU

Cylchgrawn newydd sbon a gyhoeddwr yn ddeufisol, sy'n ymdrin a natur a bywyd cefn gwlad.

Rhwng cloriau CYNEFIN celf erthyglau a phytiau difyr ac addysgiadol i'r teulu i gyd ar: Adar, Anifeiliaid (dôf a gwylt) Amaethyddiaeth, Garddio, Pysgota, Hela, Cadwraeth a llawer mwy...

Mae'r rhifyn cyntaf yn eich slop leol yn awr. Mynnwch eich copi. Pris 60c.

Hefyd:

CALENDR CYNEFIN 1983
6 llun lliw llawn o anifeiliaid ac adar. Pris £1.15.



GWASG DWYFOR
Y Maes, Pwllheli. (0758) 2704

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

ADRAN YR URDD – Mae Adran yr Urdd wedi dechrau blwyddyn arall o weithgareddau. Yn ystod y mis, cynhaliwyd cyfarfod croeso i aelodau newydd y flwyddyn gyntaf. Trefnwyd y noson gan Mrs M. Hughes, Mrs C. Jones, Mrs Rh. Ellis, Mrs J. Fleming, Mrs Mair Griffydd, Mrs A. Jones, Mr A. Fleming, Mr G. Davies a Mr Rhys Parri.

Nos Fercher, Hydref 13, cynhaliwyd noson goffi yn yr Ysgol tuag at Adran yr Urdd. Cafwyd nifer o eitemau gan blant yr ysgol yn ogystal ag ychydig o stondinau. Diolch i'r athrawon a drefnodd y noson, ac i aelodau'r chweched am helpu. Casglwyd tua £150 at yr Urdd.

TAITH GYFNEWID – Aeth nifer o blant yr ysgol ar daith gyfnewid i Lydaw, i dref fechan o'r enw Gourin. 'Roedd y plant yn aros gyda theuluoedd yn yr ardal, ac yn cael blkasu bywyd Llydaw, cael cyfle i ymarfer Ffrangeg, a dysgu ychydig o Lydaweg. 'Roeddynt yn croesi o Portsmouth i St. Malo, ac yna'n cael bws i Gourin. Aeth Mrs Edwards, yr athrawes Ffrangeg, a Mr Thomas y prifathro, gyda hwy. Rhagor o hanes y daith y mis nesaf.

PENCAMPWYR CYMRU – Ddydd Sadwrn, Hydref 2, aeth 28 o sgiwyr o Wynedd, yn cynnwys 14 o Ysgol Brynrefail, a 2 o Ysgol Penisarwaun, i Bontypwl i Bencampwriaeth Sgio ar Lethr Artiffisial Cymru. 'Roedd cyfanswm o 150 o gystadleuwyr yn yr adrannau o dan 19 oed, ac o dan 12 oed.

Enillodd Timothy Lloyd yn ei adran ef (o dan 16) ac yna aeth ymlaen i ennill y tlws am y sgiwr gorau yng Nghymru o dan 19 oed. Enillodd Kirsty McCann hefyd yn ei hadran hi (o dan 14) ac aeth ymlaen i ennill y tlws am y sgiwraig orau yng Nghymru o dan 19 oed. Enillodd ei chwaer, Robina, y tlws yn ei hadran hi (o dan 16) a daeth yn agos i Kirsty am y tlws am y sgiwraig orau Cymru. Cafodd Michael Wroe, Ysgol Penisarwaun dlws am ddod yn ail yn y gystadleuaeth o dan 12 oed.

Y mae sgiwyr ifainc o Gylch Gwynedd yn ymarfer bob nos Wener ym Mhlas y Brenin ar gyfer Pencampwriaeth Ysgolion Cymru ym Mhontypwl ar Dachwedd 6ed. Enillodd tîm genethod Brynrefail y gystadleuaeth hon y flwyddyn ddiwethaf, ac maent yn gobeithio ailadrodd eu llwyddiant eleni, tra mae'r bechgyn yn gobeithio dod â thlws y buddugwyr i Ogledd Cymru am y tro cyntaf.

GWNEUD CAM Â MARGARET – Y mis diwethaf, yn y rhestr o brif enethod a bechgyn yr ysgol, gadawyd enw Margaret Roberts allan. Margaret yw dirpryw brif eneth yr ysgol. Mae'n ddrwg iawn gennym, Margaret!

HWYL A SBRI Y GWISGO! – Ddydd Gwener, Hydref 15, daeth pawb i'r ysgol yn eu dillad eu hunain, heb wisg ysgol, er mwyn

HWYL Y GWISGO



Rhai o'r plant yn eu helfen.



Yr athrawesau wrth eu bodd cael dangos eu hunain yn blant. Gresyn na fyddai pob un ohonynt wedi gwisgo'n briodol!

CYCHWYN AM LYDAW



Y plant a'r athrawon cyn cychwyn ar y daith gyfnewid i Lydaw.

casglu arian at achosion da lleol. 'Roedd pawb yn talu 20 ceiniog am gael gwneud hyn. Mwy o fanylion am y diwrnod y mis nesaf.

PÊL-DROED – Ysgol Dyffryn Ogwen (gartref) – Bechgyn Hŷn – ennill 5-2; Dan 15eg – ennill 7-2. Dan 13eg – Tîm 'A' – ennill 5-4; Tîm 'B' – ennill 3-0.

Ysgol David Hughes, Porthaethwy (gartref) – Bechgyn Hŷn – colli 2-1; Dan 15 – ennill 8-0; Dan 13 – Tîm 'A' – ennill 5-2; Tîm 'B' – ennill 1-0.

Ysgol Dyffryn Ogwen (oddi cartref) – Bechgyn Hŷn – colli 4-3; Dan 15 – ennill 9-2; Dan 13 – cyfartal 2-2.

Mae Iestyn Jones o Frynrefail wedi ei ddewis i chwarae i dîm pêl-droed Ysgolion Arfon.

Fe chwaraeodd Kevin Jones o Ddinorwig i dîm Gogledd Cymru dan 15 oed yn erbyn bechgyn Ysgolion Manceinion yn Wrecsam. Cyfartal oedd y sgôr 1-1.

Mae Kevin hefyd wedi cael ei ddewis i fynd i Gaerdydd am dri diwrnod o hyfforddiant gyda 13 o fechgyn eraill o'r Gogledd.

Ar y 16 o'r mis chwaraeodd Hugh Jones o Lanrug a Kevin Jones i dîm dan 15 oed Ysgolion Arfon yn erbyn Ysgolion Aberconwy.

Mae enw Hugh, sy'n gôl-geidwad addawol, yn mynd ymlaen i ymddangos gyda Kevin yn y treial terfynol i fechgyn Gogledd Cymru y mis nesa'.

OES PIANO AR GAEL?

Y mae ar Ysgol Brynrefail angen piano ychwanegol! Yr ydym yn fodlon talu am un mewn cyflwr da neu os oes rhywun eisiau 'madael â phiano sy heb fod mewn cyflwr ardderchog ond un sy'n bosib ei thrwsio, byddem yn falch o'i derbyn. Ffoniwch yr ysgol gyda'r manylion.



Rhai o'r bechgyn yn golchi ceir yr athrawon – at achos da.



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: **LLANBERIS 871 278**

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

DIOLCHGARWCH DAFYDD IFANS

Stori fer fer, gan Siôn Rees Williams

Hen lanc oedd Dafydd Ifans yn byw yng nghartre'r hen bobl yn y pentre. Dyn byr oedd o, gyda herc yn un goes am ei fod wedi ei glwyfo yn y rhyfel.

Roedd o yn eglwyswr selog. Byddai'n canu'r gloch hefyd, yn y gell fechan honno wrth y fedyddfan yn eglwys St. Anne - hynny yw - os nad oedd yna wyl arbennig, neu ymweliad gan yr esgob. Ar adegau felly byddai Arthur Lewis y warden yn ei chanu er mwyn iddo gael dangos ei ganol.

Cloch fechan oedd hi hefo'r tolyn tu allan. Roedd hwnnw yn hael ei symud drwy dynnu tennyn hir a redai i fyny rhyw simdde gul i'r clochdy. Roedd yna ddolen haearn ar ben y tennyn, a thrwy afael yn honno doedd angen fawr nerth i roi tinc ar y gloch.

Roedd hi wedi bod yn crogi ers blyneddau, ac roedd yna gronfa wedi ei chychwyn tuag at atgyweirio'r clochdy ei hun.

Y Sul diolchgarwch diwetha roedd Dafydd Ifans yn ei sedd yn gynnar. Gwyddai mai'r warden fyddai'n canu, ond roedd o yno wedyn, dech rhag ofn. Roedd o yn byseddu ei oriau boced tua chwarter i ddeg a gweld Arthur Lewis yn hir iawn yn mynd ati hi.

Tra disgwyliai, edmygai'r addurniadau a oeddent wedi eu gosod gan y chworydd diwyd; yr yd, a'r grawnwin, ac yn arbennig y fasedd ffrwythau oedd ar linell y ffenestr wrth ei ochr, y fasedd a oedd yn cael ei chludo i gartref yr hen bobl ar ôl yr wyl.

Roedd Dafydd ar godi i fynd am y fedyddfan pan glywodd dinc gyntaf y gloch, a phan drodd ei ben gwelodd Arthur Lewis yn plician y tennyn y tu mewn i'r drws bychan. Ac roedd yna rhyw sglein arbennig ar ei ben moel.

Gafaelodd Dafydd yn y llyfr emynau a rhoi ei spectol. Byddai'n hoffi edrych ar y tonau o flaen llaw. Ac ar hynny dyma clec ofnadwy o'r cefn, a dyma phawb yn sgwio rownd yn eu seddau, ac roedd rhai wedi codi ar eu traed.

Beth welsant ond Arthur Lewis yn dod allan o'i dwll, a'i ben a'i 'sgwyddau'n blaster a gwe pry cop i gyd. Roedd tennyn y gloch wedi ei chwipio am ei wddf a'r ddolen yn siglo rhwng ei goesau fel angor llong wedi torri yn rhydd mewn storm.

Roedd y ficer hyd yn oed wedi clywed y glec o'r festri, a daeth yno ar ras yn ei wenwisg, a wyddai o ddim yn iawn prun ai mynd i weddio nteu galw am yr ambiwlans oedd y peth gorau i'w wneud. Ond roedd Dafydd Ifans yn ddyn mwy ymarferol. Rhedodd i'r festri a chythrodd i botel win y cymun. Erbyn iddo ddychwelyd roedd Arthur Lewis yn eistedd yn y sedd groes â darn helaeth o'r gynulleidfa yn sefyll o'i gwmpas ac yn ei rwystro rhag cael ei wynt.

Gwlychodd Dafydd Evans ei weflau â'r gwin, ac mae'n rhaid fod hynny wedi gwneud lles, achos roedd Arthur wedi dadebru digon erbyn hyn i ddal ei afael yn y botel ei hun. Ac yr oedd sylw pawb mor llwyr ar ei gyflwr nes iddynt fethu gweld fod Mrs Huws Tŷ Main oedd yn eistedd o dan y pulpud, wedi llewygu i ganol bwnel o gabais.

Ar ôl i Dafydd Ifans dywallt chwaneg o win i lawr llwnc honno, dechreuodd y ficer fynd yn bryderus, a chipiodd y botel oddi ar Dafydd,

rhag ofn na fuasai yna ddigon yn sbâr i fynd rownd. A bu raid iddo fynd drwy'r gwasanaeth ei hun gan fod yna beth o blaster y clochdy yn dal yn llygaid Arthur Lewis, fel na fedrai weld i ddarllen y llithoedd.

Pan ddaethpwyd at y gweddïau, offrymwyd gair o ddiolchgarwch am ddihangfa Arthur Lewis rhag gwaeth niwed, a rhoddodd y ficer gyfle i bawb roi gweddi fach ddistaw trosto ei hun.

Roedd pawb â'i ben i lawr, ond roedd Dafydd yn edrych drwy ei fysedd ar y fasedd ffrwythau, ond roedd yn ddigon doeth i beidio â diolch am fendithion o flaen llaw. Edrychodd ar gefn Mrs Jones, Ty Mawn o'i flaen, a sibryddodd wrtho ef ei hun o'r diwedd.

"O Arglwydd, diolch i ti am yrru'r hen Arthur i ganu bora'ma, ac nid y fi. Amen."

DINORWIG

NOSON CAWL A CHÂN - Nos Wener, Medi 24 yn y Ganolfan cynhaliwyd noson o Gawl a Chân. Cafwyd cynulliad da iawn. Llywyddwyd rhan gyntaf y cyfarfod gan Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir. Estynnodd groeso i'r cyfarfod ac egluro ei amcangyfrifau arian gan y ganolfan ac Eisteddfod Gwaun Gynfi, sydd i'w chynnal Sadwrn, Rhagfyr 4 eleni yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Arweiniwyd yr ail ran gan Mr Gwyn Parry, B.A., Deiniolen. Cafwyd cyd-ganu gyda Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol yn cyfeilio, ac eitemau mewn unawdau a deuawdau o safon uchel gan Master Geraint Morris, Cefn Coch; Mrs Myfanwy Roberts, Llandudno; Mr Tom Morgan, Bethesda, a Mr Ifan B. Roberts, Dinorwig. Rhoddwyd hanner oen ar raffl gan Mr Derec Williams, Bron Eilian, Dinorwig. Rhannwyd nifer o ddarnau i'r enillwyr.

Dymunwyd yn dda i Mrs Annie M. Jones, 5 Maes Eilian ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed y dydd lau blaenorol.

Talwyd diolch i bawb gymerodd ran yn y cyfarfod mewn unrhyw fodd gan y llywydd, Mr Hugh Thomas.

BEDYDDIO - Yng Nghapel Dinorwig M.C., Medi 26 â'r Parch W.R. Williams, y Felinheli yn gweinyddu, bedyddwyd Christopher Wayne, baban bach Mr a Mrs Selwyn Allsup, Strych Ceunant, Llanberis. Mae Christy Ceunant yn ŵyr i Mr a Mrs Renell Williams, Tanyfron, Dinorwig.

COFION - Anfonir ein cofion at y cleifion o'r ardal sy'n wael yn eu cartrefi ac yn yr ysbytai. Dymunir gwellhad buan iddynt.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, ddiolch i bawb o'r teulu, perthnasau, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed.

Dymuna Mrs M. Fleming, 7 Maes Eilian ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am fod mor garedig tuag ati yn ystod ei hanffawd diweddar, ac yn arbennig i Mr Ronnie Williams, Rhydfadog am bob cymorth.

DIOLCHGARWCH - Cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch am y cynhaeaf Hydref 17 a 18 yn eglwys St Mair, Capeli Sardis (B), Dinorwig M.C. Cafwyd cynulliadau da ar waethaf tywydd garw.

PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN - Yn ystod y gwasanaeth ddydd Sul Medi 12 bedyddwyd Sian Meleri, merch fach y Parch a Mrs Edwards, gan y Parch Clifford Williams, a phlant yr Ysgol Sul yn cyfrannu.

Braf oedd bod yn y gynulleidfa yng Nghapel Brynrefail ddydd Sul Hydref 3 i fwynhau clywed cyfraniadau ar lafar a chân gan aelodau eglwys a chapelir cyrch. Diolch yn fawr i Berwyn ac Andrea, Sioned a Nia a'u hathrawes Miss Heather Jones, am gynrychioli Ysgol Sul Santes Helen.

Cydymdeimlwn fel eglwys gyda Mr a Mrs Pritchard, Pen Sarn. Maent wedi cael dwy brofedigaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs A.M. Naylor, Cefn Coed a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod a thad. Bu Mr Ff. Naylor yn dioddef am amser hir.

Llongyfarchwn Maurice Naylor ar achlysur ei briodas yn Nwygyfychi yn ddiweddar.

Yn ddiweddar fe dorrodd Kevin Williams, 20 Bryntirion ei fraich. Brysia wella Kev!

Dymuniadau da i Ffion Parry, Tawelfa sydd wedi dechrau nyrsio yn yr ysbyty ym Mangor.

CLWB Y MERCHED - Fe gafwyd cyfarfod nos Fawrth, 28 Medi a chafwyd noson ddiwyf iawn yng nghwmni Mrs N. Jones o Fethel yn dweud ei hanes ac yn dangos sleidiau o'i hymweliad ag America. Dymunwyd yn dda i Mrs N. Jones, Tai Brynhyfryd a oedd ar gychwyn i weld ei theulu i Hong Kong. Rhoddwyd y teulu gan Mrs N. Williams a Mrs M. Davies. Enillodd Mrs M. Thomas y raffl a diolchodd Miss Mair Foulkes i bawb.

CLWB YR HEULWEN - Diolch i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth tuag at Henoed Gwynedd - fe dderbyniwyd £26.10.

Cafwyd cyfarfod prynhawn ddydd Mawrth Hydref 19. Oherwydd y tywydd nid oedd llawer yn bresennol, ond cafwyd cyfarfod digon cartrefol. Rhoddwyd y teulu gan Mrs V.M. Pritchard a Mrs P. Williams. Enillodd Mrs E. Porter y raffl. Dymunwyd yn dda i Gwyneth, Aberdesach, mam Lis, 17 Bryntirion, sydd wedi bod yn yr ysbyty am amser hir. Cydymdeimlwyd â Mrs G. Williams, 15 Bryntirion, sy wedi cael dwy brofedigaeth yn ddiweddar.

LLONGYFARCHWN - Mrs Megan Williams, Tan y Gaer ar fod yn nain. Ganwyd mab bach i'w merch, Carys, a'i mab yng nghyfraith, y Parch Dei Roberts. Ein dymuniadau da hefyd i'r Parch Bryn Williams, sydd wedi cael ei sefydlu yn weinidog yng nghapel Bryn Du a'r cych ym Môn. Bu'r gwasanaeth sefydlu nos Wener, Hydref 15.

DIOLCH - Am y rhoddion, cardiau a dymuniadau da. Tra bu'n wael yn ddiweddar anafon Marian, Cae Corniog ei diolchiadau cynhesaf at bawb am eu caredigrwydd.

YSGOL TAN Y COED - Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y Noson Gofflyuddol. Gwnaed elw o £216.00 tuag at Gronfa'r Ysgol.

Tri o blant lwyddodd i gadw'r ysgol yn ddi-feth yn ystod 1981-82, sef Karen Jeavons, a'r brawd a chwaer Dyfan a Bethan Evans. Dyma lun ohonynt efo'u tystysgrifau presenoldeb.



PROFEDIGAETH - Ar ran ei chydweithwyr ar yr 'Eco', a phawb ym Mhenisarwaun, hoffwn gydymdeimlo'n ddiffuant â Gohebydd yr Eco yn y pentref, Mrs Mary Davies, yn ei phrofedigaeth o golli chwaer yn Nghaernarfon. (Tony Elliot, Golygydd Newyddion)

CYDYMDEIMLWN - â Mrs Ethel Jones a'r teulu, 6 Bryntirion yn eu profedigaeth o golli mab Mrs Jones ym Methel.

CEUNANT

LLONGYFARCHIADAU - i Glyn a Sandra Jones, Penhafodlas ar enedigaeth eu merch, Karen Anne, Medi 25. Hefyd i Mr a Mrs Robert Jones ar fod yn daid a nain.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Evie Davies, Tan-y-Graig ar fod yn daid a nain. Ganwyd eu hwyres, Ffion Mai Williams, Medi 22.

AR WERTH

Gwely sengl, yn cau fel bwrdd, mewn cyflwr da a glân. Pris £20. Ffôn Llanberis 872459.

Sinc ymolchi, lliw pampas, fel newydd - £25.

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsî a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

DRWY LYGAD ECSTRA

gan Dewi Owen

Ers rhai wythnosau bellach, mae cwmni Paramount wrthi'n gwneud rhan o ffilm newydd o'r enw 'The Keep' yn un o hen dyllau chwarel y Glyn. Maent hefyd wedi ffilmio yn Nolwyddelan ac yn Llechwedd, Blaenau Ffestiniog. Yma, mae un o'r bechgyn lleol, sy wedi cael gwaith fel ecstra, yn dweud dipyn o'r hanes wrth yr 'Eco'.

Dyma i chi, felly, ecsclicwsif!

"Action, Mr Jones," meddai Mr Mann, ac y mae 6 ohonom yn neidio allan o'r Steyr, cerbyd Almaenig o'r ail ryfel byd, ac yn cerdded yn araf at y gweddill o'r 'troop' sydd wedi llusgo eu hunain allan o'r ddau dryc y tu ôl i ni.

Wedi i'r cynulliad blêr lonyddu, clywir 'cut' a dyna olygfa arall o'r ffilm 'The Keep' yn y can. Golygfa ar gyfer cychwyn y ffilm yw hon pan mae'r Almaenwyr cyntaf yn cyrraedd y pentref i sefydlu pencadlys yn y castell gwag yn erbyn cyngor y pentrefwyr.

Mae'r daith o'r Almaen wedi cymryd tri diwrnod, via Dolwyddelan ac y mae pawb i fod wedi blino; roedd hi'n ddigon hawdd actio bod wedi blino am fod pawb wedi blino beth bynnag. Roedd popeth wedi cymryd bron i ddwy awr cyn iddynt fod yn barod a dim ond ar ôl y chweched 'cyrhaeddiad' oedd Michael Mann, y cyfarwyddwr, yn hapus.

Roedd hi rŵan yn amser cinio ac i fyny â ni yn y lifft i'w nôl, a sôn am ginio, cawl, prif gwrw a phwdin, a digon o ffrwythau, a the neu goffi i'w olchi i lawr.

"Wnawn ni byth lwgu yma, beth bynnag," meddai Pete, ar ganol ei bumed deisen hufen. Erbyn diwedd wythnos o'r ffilmio doedd neb o'r 'Wehrmacht' angen ei bresus gan fod eu boliau'n dal eu trowsusau i fyny. Hefyd roedd gan hogia'r 'Wehrmacht' declyn handi iawn, sef bocs y 'gas mask' sydd wedi cael ei fedyddio yn "y bocs bwyd", am ei fod yn ddelfrydol i ddal y bisgedi a'r ffrwythau sydd ar ôl rhag ofn i ni deimlo fel snac, neu fethu pryd drwy ffilmio.

Os nad ydym ar y set mae hi'n hwyd cerdded o gwmpas yn y gwisgoedd ac y mae 'na ambell i olwg ryfedd ar wynebau pobl wrth glywed y "Jymans Cymraeg" ond i rai o'r Saeson ac Americanwyr waeth i ni fod yn Hyrmans ddim. Mae llawer o bobl Llanbêr wedi arfer ein gweld yn Wehrmacht, S.S. neu'n Riwmaniaid yn cerdded ar hyd Stryd Goodman neu'r Stryd Fawr ac mae ambell soldwr yn edrych arnom yn amheus iawn, hyd nes iddyn nhw ddarganfod mai "Jymans Cymraeg" ydan ni. Gyda gwylliau hanner tymor y plant y mae rhai yn gofyn am lofnod a ddim yn deall pam mae'r hogia'n marw chwerthin am eu penau pan maent yn cael un; oes, mae 'na ben mawr yma hefo ninnau hefyd, ecstra sydd YN arwyddo'i lofnod ac yn ei lordio hi fel un o'r sêr.

Mae'n rhaid i mi ddweud rŵan nad Vincent Price (fel y cyhoeddwyd yn yr 'Eco' dro'n ôl) yw seren y ffilm ond rhyw Americanwr o'r enw Scott



Dewi yn ei wisg milwr Almeinig.

Glenn, creadur y mae pawb wedi clywed ei enw yn rhywle ond wŷr neb ddim yn lle. Mae dau neu dri o Almaenwyr go iawn yn y ffilm, un ohonynt wedi bod mewn ffilm ryfel dda iawn o'r enw 'The Boat'. Jurgen Prochrow yw ei enw. Saeson yw'r gweddill, rhai o'r theatr yn eu ffilm gyntaf. Merch neis iawn o'r enw Alberta yw'r brif actores o Ganada. Mae'n rhaid i mi ddweud os gwelwch chi'r ffilm, mai fi ydi'r boi sy'n rhoi'r bwyd ar eu platiau yn y barics.

Ond y ferch sydd yn cael y mwyaf o sylw yw Tracy, yr hogan 'stunts'. Dydi hon ddim yn gall, mae hi yn neidio o ben ochr Glyn Isaf i'r Llyn yn y gwaelod, dros gant o droedfeddi a hefyd yn rhedeg nerth ei choesau i lawr tomen chwarel yn Llechwedd (Blaenau Ffestiniog). Gall un llithriad dorri pob asgwrn yn ei chorff. Mae un o'r dynion 'stunts' Paddy Ryan yn 72 mlwydd oed ac wedi bod mewn mwy na dwy fil o ffilmiau. Paddy oedd un o'r rhai cyntaf i gael ei ladd gan yr S.S. gyda Stephen Roberts o Lanbêr ac un dyn 'stunts' arall. Roedd yn rhaid i'r olygfa arbennig hon weithio yn iawn y tro cyntaf, felly, yr oedd cryn bwysau ar bawb.

Pan roedd wedi gorffen roedd y cyfarwyddwr bron yn dawnsio am fod pawb, gan gynnwys Stephen, y gwŷr 'stunts' a'r ecstras eraill i gyd wedi gwneud yn wych. Roedd popeth mor dda fel bod y merched yn crio go iawn, a dim yn actio!

Mae hi'n wir fod adegau diflas o hir o wneud dim byd, ond mae'r tâl yn dda ac fe gofia pob ecstra yn y ffilm yma am y pedair 'P' sef Profiad Prydau Pres a'r Peint neu ddau yn y Prince of Wales!

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

BRYNREFAIL

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Medi - Medi 3, 1. Wil Hughes, 2. Aled Green, 3. Islwyn Jones. Medi 10 - 1. Eirlys Williams, 2. Derek Davies, 3. Margaret Jones. Medi 17 - 1. Eurwyn Williams, 2. Maldwyn Jones, 3. Eleanor Williams. Medi 24 - 1. Dilys Jones, 2. John Williams, 3. Alwyn Roberts.

Bydd coelcerth a thân gwyllt yn y cae chwarae ar Dachwedd 5 - bydd y casglwyr o amgylch y pentref yn ystod y dyddiau nesaf - rhoddwch yn hael a dowch i'r cae i fwynhau'r noson mewn diogelwch. Bydd tatws drwy'u crwyn ar gael yn y cae.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yn Sioe Gynnyrch a Gwaith Llaw Cylch Gwyrfaï yn y Bontnewydd Medi 30, rhoddwyd canmoliaeth fawr i gangen Brynrefail am fod yn un o'r rhai lleiaf o ran nifer aelodaeth, ond er hynny yn ennill sawl gwobr. Enillwyd gwobrau am deisennau gwaith llaw, blodau, gwin a jam, gyda Pat Jones, Moira Ellis, Betty Owen, Sheila Williams, Carol Houston a Mrs Griffiths ymysg yr enillwyr.

CYNGOR HENOED GWYNEDD - Diolch i bawb am gyfrannu at y Gronfa yma - anfonwyd £28 at y Cyngor Henoed. Diolch hefyd i'r casglwyr, Mrs Griffiths, Mair Williams, Rhian Jones a Helen Jones.

CLWB Y MAMAU - Cynhaliwyd cyfarfod y mis a drefnwyd gan Moira Ellis, yn Nhŷ Glas. Cafwyd cystadleuaeth o hoff lyfrau'r aelodau. Yr enillydd oedd Rhian Jones. Helen Jones a Shirley Roberts oedd enillwyr yr 'Yrfa Chwilod'. Darparwyd y te gan Shirley Roberts ac Audrey Roberts, rhoddwyd anrheg y mis gan Jinnie Williams ac fe'i henillwyd gan Shirley Roberts.

DALIER SYLW - fod y wibdaith flynyddol i Gaer i siopa ar gyfer y Nadolig wedi ei threfnu ar Dachwedd 20 - bydd y bws yn gadael o'r bont am 8.30 yn y bore. Croeso i bawb. Enwau i Helen Jones, Tremeilian os gwelwch yn dda.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU -

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Cymdeithas y Beiblau Dosbarth Deiniolen eleni yng Nghapel M.C. Brynrefail ddydd Sul, Hydref 3. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Miss Ellen Wyn Jones, Sardis, Dinorwig ac yr oedd rhannau arweiniol y cyfarfod yng ngofal plant Ysgol Sul Brynrefail. Cafwyd eitemau gan aelodau o Ysgolion Sul y dosbarth ar y thema Efengyl Tangnefedd. Cafwyd Cymanfa Ganu yn yr hwyr dan arweiniad Mr John Jones, Ebeneser, Deiniolen a'r organyddes oedd Miss Lowri Prys Roberts.

SEIAT Y DOSBARTH - Nos Fercher, Hydref 6 cynhaliwyd y Seiat Dosbarth Flynyddol Unedig rhwng Dosbarth Deiniolen a Llanberis yng Nghapel Brynrefail. Cafwyd yr agoriad i Faes Lafur yr Ysgol Sul - 'Y Gair ar Gerdded' gan Mr Gwyn Parry, Deiniolen. Roedd y rhannau arweiniol dan ofal y Parch Marcus Robinson a chyfeiliwyd gan Mr Elfed Roberts.

YR WYL DDIOLCHGARWCH - Cynhaliwyd dau gyfarfod o ddiolch, ddydd Llun, Hydref 18. Trefnwyd gwasanaeth y prynhawn gan Mrs Ifanwy Jones a chymerwyd rhan gan blant ac oedolion yr Ysgol Sul. Llywyddwyd gan Mrs Carol Houston. Yng ngwasanaeth yr hwyr, cymerwyd rhan gan Mr Gwilym Wyn Williams, Mr R. Wyn Evans a Mr Bertie Ll. Roberts. Cyfeiliwyd yn y ddau gyfarfod gan Miss Lowri P. Roberts.

PRIODAS - Yng Nghapel Coch Medi 25 gyda'r gweinidog y Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu priodwyd Eleanor, merch Mr a Mrs E.G. Pritchard, 38 Maes Padarn a Myrddin, mab Mrs Megan Jones a'r diweddar Mr D.O. Jones, Greuor Villa. Daeth lluo o gyfeillion ynghyd i Westy Bron Eryri i ddymuno'n dda i'r ddau. Gwnânt eu cartref yn 11 Stryd Newton, Llanberis.

DIOLCH - Dymuna Eleanor a Myrddin Jones ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.

DRAMA FAWR MYNYDD CARMEL

Fe gofiwch, mae'n siŵr, sut y bu i Eleias y Proffwyd ddryllio holl ddilynwyr Baal ar Fynydd Carmel, ganrifoedd maith yn ôl (gw. 1af Brenhinoedd 18). Dyma fydd thema fawr Côr y Brifysgol eleni yn eu perfformiad o Eleias gan Mendelssohn ar Fawrth 16eg, 1983.

Cychwynnir yr ymarferion ar gyfer y cyngerdd ar Nos Fercher, RHAGFYR 8ed, 1982, am 7.30 yn Neuadd Powis, y Coleg Uchaf.

Darperir copïau yn rhad ac am ddim ac estynnir gwahoddiad cynnes iawn i gyn-aelodau'r Côr yn ogystal ag unrhyw aelod newydd a garai ymuno â ni.

"Myfi fy hunan wyf yn fyw o broffwydi yr Arglwydd" meddai Eleias, "ond proffwydi Baal ydynt bedwar cant a dengwr a deugain. Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ôl ef, ond os Baal, ewch ar ei ôl yntau ..."

Mynnwch eich

PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

BETHEL

PLAID CYMRU – Roedd cyfarfod mis Hydref yn un hwyliog iawn gyda hanner yr aelodau yn herio'r hanner arall mewn cwis ar wybodaeth gyffredinol. Gofynnwyd y cwestiynau gan Mrs Pat Larsen tra cadwai Mr Larsen lygad barcud ar y sgôr. Roedd yn ornest mor glôs nes i'r ddau dîm orffen yn gyfartal a bu'n rhaid chwilio am ychydig gwestiynau'n ychwanegol, anodd cyn i un tîm drechu'r llall o un marc. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Tachwedd 17, pryd y ceir adroddiad o'r gynhadledd genedlaethol yn Llandudno.

Nos Fercher, Rhagfyr 15 cynhelir Gyrfa Chwist Nadolig dan nawdd Plaid Cymru yn y Neuadd.

LLONGYFARCHIADAU i D. Alan Owen, 20 Cremllyn ar ei benblwydd yn 18 oed Hydref 8.

FFERMWYR IEUAINC – Ailgychwynnodd tymor Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon a'r

Cylch nos Fawrth, Hydref 5, gydag aelod o'r heddlu, Sergeant Jones o Gaernarfon yn dangos ffilm a rhoi sgwrs am waith yr heddlu. Y nos Fawrth ddilynol, cafwyd noson yng nghwmni Mr Hubbard, milfeddyg yng Nghaernarfon. Mr Roberts, Moel y Ci, Tregarth oedd yn cadw'r noson ar y Hydref 19 gyda sleidiau o'i daith i gynhadledd yn Seland Newydd. Ymunodd amryw o aelodau newydd â'r Clwb y tymor hwn, ac os oes gan unrhyw un ddiddordeb i ymuno â'r clwb, ewch draw i Neuadd Goffa Bethel, maent yno bob nos Fawrth am wyth o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU i Clive, mab Mr a Mrs Eifion Roberts, 21 Bro Rhos, Bethel, am ennill ei fedal pres ym mhwll nofio Bangor. Mae Clive wedi llwyddo hefyd i ennill pum bathodyn ers mis Medi llynedd, sef 20m, 100m, 200m, 400m, ac 800m. Disgybl ail flwyddyn yn Ysgol Syr Huw Owen ydi Clive sydd yn 12 oed.

UN O BOBL Y PLAS

"Mrs Hughes – Capel Wesla"

Mrs Mair Hughes, 2 Stryd Turner, Llanberis sydd, ers tair blynedd yn un o drigolion Plas Pengwaith, Llanberis, ac yn dathlu ei phen-blwydd yno ddydd Mawrth, Tachwedd 2, yn naw deg oed.

Ar ôl marw ei gŵr, cafodd Mrs Hughes le yn gogyddes yn Ysgol Dolbadarn. Wedyn aeth i wneud yr un gwaith ym Mwyty Harpers, Caernarfon, a bu yno am ddeunaw mlynedd. Ar ôl dod o Gaernarfon cafodd le yn nes adref, gyda chwmni lein yr Wyddfa i fod yn gogyddes yn ystod tymhorau'r haf, o fis Mai hyd Medi. Treulodd chwe thymor hefo'r cwmni, gyda Mrs Daniels (o Ruthun) yn reolyddes. Treuliodd y tymor cyntaf yn y bwyty ar y gwaelod, a'r pum dilynol ar y top. "Lle bendigedig ar dywydd braf," meddai Mrs Hughes, "ond ofnadwy ar dywydd mawr." A thywydd felly oedd hi pan ddaeth y Tywysog Charles yno yn ystod ei thymor olaf, "ar y top". Cafodd sgwrs ag o, a chan ei fod am fynd ar y brig, a hithau'n arbennig o oer, gwnaeth fflasgiaid o de poeth iddo.

Cofia Mrs Hughes hefyd ddyddiau cynnar y barcuta pryd daeth rhai i godi adain ar ochr y mynydd ar yr anturiaeth honno am y tro cyntaf. Yr oedd cannoedd o bobol wedi dod i weld, meddai, a mawr oedd diddordeb y cyfryngau a'r wasg ddyddiol. Er na welodd â'i llygaid yr hedfan, deallodd i'r fenter fod yn llwyddiant, a bu'n siarad ar y radio a'r teledu yn ei gylch.



Ymdeolodd Mrs Hughes yn gyfan gwbl o waith yn 1975, a hithau'n 82 oed. Mae'n siŵr na fu fawr neb yn dal swydd mor uchel yn yr oedran yna yng Nghymru.

Yn ystod ei hoes, bu hefyd yn cadw Tŷ Capel Bethel (M) ac adweaenid hi yn y pentref fel Mrs Hughes, Capal Wesla. Y mae yn hynod ifanc ei gwedd, ei chof a'i hysbryd, a mwynhâ iechyd da ar y cyfan, diolch i staff caredig y Plas, a chymryd i ystyriaeth iddi gael 'pneumonia' deirgwai, a thua chwe blynedd yn ôl iddi gael triniaeth i'r galon a chael y "pace-maker" i'w rheoli. "Yr oeddwn yn cael blocwts o hyd," meddai, "a pherswadiodd doctor fi i'w gymryd (triniaeth) a dywedodd mae'n siŵr na chawn i'r un byth wedyn – a ches i ddim chwaith."


CASGLU AT GANOLFAN SEGONTIUM



Plant Ysgol Bethel yn cyflwyno rhodd i Mr Barry Creek, Prifathro Canolfan Segontium, Caernarfon; sef casgliad gan y plant fel rhan o'u dathliadau Diolchgarwch yn yr Ysgol. Dymuna'r Prifathro ddiolch i'r Parch S.O. Hughes am ei gymorth ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

UN FANER

gan Dilys Baylis




Wrth ddarllen llythyr Enid Grisdale yn 'Eco'r Wyddfa' (Hydref 1982) daeth geiriau'r Dr Gwilym O. Roberts i'm meddwl – mai "fel bom" y digwydd rhyw ddeffroad yn yr hen fyd yma. Tybed mai taro tir Cymru wnaiff y "bom" yma, a ffrwydro'n Oleuni a Grym egniol drwy'r bydysawd?

Dywed rhai y daw lesu'n ôl a llenwi'r addoldai rhyw ddydd. Ond, dod eto'n ôl i beth deudwch – ? gwnaeth ef ei waith, profodd yr Egwyddor (Principle) a berthynai i'w ddysgeidiaeth; pam disgwyl iddo ymddangos yn y cnawd, eto, a dyn heb ganfod y "Grid" fawr ysbrydol ddaeth ef i'n gafael, pan ar y ddaear?

Fel trydan, neu nwy, 'roedd pŵerau y Drindod Sanctaidd mewn bod erioed ar ein planed. Ni ofynnwn i Faraday na Murdock ddod yn ôl i esbonio'r egwyddor tu ôl i'w damcaniaethau hwy am eu hegnion anweledig; pam disgwyl i lesu ddod eto i egluro'i egwyddorion ef ynglŷn â'r Gallu daionus oedd wedi eu paratoi ar gyfer hapusrwydd dyn o'r dechreuad?

Bu raid i lesu chwilio'r Ysgrythurau a myfrio am flynyddoedd cyn trosglwyddo'r gwirionedd am allu'r Drindod – yn Dduw, Mab ac Ysbryd Glân – i'w ddilynwyd. Ond gwyddai



fod y Drindod yn gyflawn, nid oedd raid disgwyl i'r Mab ymddangos – 'roedd yn real yn y Grid tair-cornel yna!

Ond lesu oedd darganfyddwr y Pŵer yma. Gwelodd ef ei fod ef ei hun, fel dyn meidrol, naturiol, yn gallu adlewyrchu y CRIST anfeidrol ac ysbrydol. lesu y **mab** yn gweld Crist, y **Mab** yn batrwm meddyliol i holl feibion a merched Duw ei efelychu.

'Roedd CRIST yn bod cyn lesu, mae CRIST yn bod 'rôl lesu. Methu lladd CRIST wnaeth y groes – gwelodd dilynwyd lesu, ymhen tri diwrnod fod CRIST (Mab y Drindod) gyda hwy o hyd.

Cred Cristnogion yr holl fyd fod yma Drindod Sanctaidd anweledig wedi dod i'r amlwg trwy lesu; felly gresyn na allwn gyd-rodio o dan un faner wen, cael ein hysbrydoli gan yr Ysbryd Glân, dilyn Crist, a gweld mawredd Duw fel Tad cariadus.

Bydd raid i ddyn droi at Bŵer daionus yn fuan; fe wêl nad oes obaith iddo dan reolaeth niwtron.

Rhesymol yw credu fod yr "Ail Ddyfodiad" wedi digwydd yn 33 A.D. pan **welodd** y disgyblion fod Grym, Egni, Nerth a Gallu y Crist gyda hwy yn y Drindod Sanctaidd o hyd.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

Ffiniau'r Gorffennol

Anerchiad y Prifathro

Mr Elfyn Thomas, Prifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug oedd un o'r rhai oedd yn annerch yn y Gynhadledd Flynyddol a gynhaliwyd yn y Coleg Diwinyddol, Aberystwyth ym mis Medi eleni.

Testun anerchiad Mr Thomas oedd 'Athroniaeth Addysg'. Cawsom anerchiad wych ar y testun anodd yma. Dyma ran o'r anerchiad. Bwriad Mr Thomas oedd rhoi amlinelliad o'r datblygiadau diweddaraf mewn Athroniaeth Addysg gan gyfeirio yn arbennig at waith yr Athro R.S. Peters a'r Athro Paul Hirst.

Meddai Mr Thomas, 'Pwrpas Athroniaeth Addysg yw bwrw golwg feirniadol dros y gwahanol syniadau am addysg sydd yn bodoli a cheisio dod â rhyw drefn allan o'r dryswch. Y mae'r hen syniad draddodiadol o addysg fel rhywbeth gormesol gyda'r pwyslais ar gosbi ac ar ddulliau peiriannol o ddysgu wedi ei dileu bron yn llwyr.

"Ond yr oedd y syniad yma o addysg er bod ei agwedd at y plentyn yn gwbl anoddhaol o leiaf yn pwysleisio fod yn rhaid dysgu rhywbeth iddo. Heddiw efallai fod y pendil wedi mynd yn rhy bell y ffordd arall a bod gormod o bwyslais ar i'r plentyn gael dewis droso'i hun, sydd yn debygol o arwain at ben rhyddid di-wraidd.

"Y mae sloganau fel, "we teach children not subject" neu "the child is the agent of his own learning" yn tueddu i ddiraddio swyddogaeth holl-bwysig yr athro ar un llaw a'r pwysigrwydd o feistrolu pwn mewn ffordd ddisgybledig ar y llaw arall. Y mae gwaith yr Athro Hirst yn dangos yn eglus fod pynciau fel e.e., Celf, Hanes a Gwyddoniaeth os dysgir hwy yn y ffordd iawn yn hanfodol os ydym am ddeall agweddau o'n 'amgylchfyd. Y mae'n rhaid cyflwyno plant i wahanol agweddau o'u treftadaeth ddiwylliannol. Dadleuir felly dros y ffordd ganol sydd yn ystyried y plentyn fel person a dangos parch ato fel unigolyn ar yr un llaw, ond sydd hefyd yn pwysleisio fod angen ei arwain yn bendant ac yn gadarn iawn tuag at wahanol fathau o wybodaeth. Ni ellir disgwyl i blentyn feddwl drosto'i hun yn bwrpasol heb fod ganddo'r wybodaeth a'r gallu i ymresymu i wneud hynny. Swyddogaeth addysg yn bennaf yw meithrin hyn hyd eithaf gallu'r plentyn.

Gan fod y Gynhadledd yn sôn yn arbennig am waith yr Athro Dewi Z. Phillips, Athro Athroniaeth Prifysgol Abertawe, cyfeiriodd Mr Thomas at wahanol agweddau o'i waith a ddangosai ei fod yn cytuno yn sylfaenol â'r safbwynt uchod.

Wrth ddiolch i Mr Thomas am ei anerchiad dywedais fy mod yn byw yn yr ardal lle mae ef yn Ysgolfeistr. Dywedais "Caiff Mr Thomas barch teilwng gan y staff, y plant a'r rhieni. Y mae Ysgol Uwchradd Brynrefail wedi "torri'r record" mewn llawer cyfeiriad yn ystod y blynyddoedd."

Manylion

Dr. O.R. Jones (gynt o Bontrhythallt) oedd Trysorydd y

Gynhadledd (adran Athroniaeth) a'r Parch John Gwilym Jones, Bangor yw trysorydd Adran Diwinyddiaeth.

Pwnc cyffredinol y Gynhadledd yn Adran Diwinyddiaeth oedd "Karl Barth". Gwnaeth y Parch Glyn Tudwal Jones (Gweinidog Twrgwyn) argraff dda iawn gyda'i anerchiad ar 'Y Barth Diweddar'.

Y Parch Elfed ap Nefydd Roberts ydyw Prifathro'r Coleg Diwinyddol. Y mae ef a'i briod a'r plant yn byw yn y coleg.

Gofynnodd y Prifathro ap Nefydd Roberts a fuaswn yn cyflwyno ei ddiolch ef a staff y coleg am y gefnogaeth haelionus a roddwyd i'r apêl am gan mil o bunnau i atgyweirio'r coleg. Fe gssglwyd £90,000. Y mae'r gwelliannau a wnaed eisoes yn y coleg yn anhygoel. "Ond mae angen mwy o arian i gwblhau'r gwaith," meddai'r Prifathro.

Os ydych angen manylion am y Gynhadledd flynyddol anfonwch at yr Ysgrifennydd, Yr Athro John Tudno Williams, Nanteris, Heol y Buarth, Aberystwyth. Ffôn 612276.

TAN-Y-COED

WYRES NEWYDD - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Robert Wynne, Gelliog ar enedigaeth wyres fach newydd iddynt - Sarah Jane Shepherd, trydydd plentyn i'w merch, Eimir Wyn Shepherd a'i phriod. Pob dymuniad da i Sarah Jane a'r teulu oll yn Llanfairfechan.

Llongyfarchiadau i blant yr ardal fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrug.

DIOLCHGARWCH - Ddydd Llun Diolchgarwch cynhaliwyd tri gwasanaeth yng Nghapel Tan-y-coed M.C. a daeth cynulliad da i bob cyfarfod.

Yn y bore cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi, Mrs Katie Roberts, Tainewyddionm Miss Megan Humphreys a Mr Glynne Owen yn cymryd rhan, a'r Parch W.O. Roberts yn croesawu'r gynulleidfa. Mrs Violet Blanchard oedd y cyfeilydd.

Gwasanaeth y plant gafwyd yn y prynhawn wedi'i drefnu gan y Parch W.O. Roberts. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan blant yr Ysgol Sul a daeth rhieni a charedigion yr Ysgol Sul i'w cefnogi. Amheuthun oedd cael dau faban yn y gynulleidfa, Steven Prys, Prysgol a Margaret Sian, Cefn Llwyd. Miss Enid Roberts oedd y cyfeilydd. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch W.O. Roberts a Mrs Violet Blanchard oedd y cyfeilydd.

Addurnwyd y capel gan Mrs Catherine Vaughan Jones a Mrs Beryl Mai Jones. Diolch i Mrs Nancy Morris a Mrs Katie Roberts hefyd am anfon blodau ar gyfer yr amgylchiad. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd, i wneud yr Ŵyl yn llwyddiant.

BETWS GARMON

CYDYMDEIMLIR - a Mr a Mrs Gwynfor Williams a'r teulu, Tyddyn Weirglodd ar farwolaeth tad Mr Williams ym Mhwlheli.

CINIO - Cynhelir cinio blynyddol i aelodau pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid yng Ngwesty Castell Cidwm nos Sadwrn, Tachwedd 6.

CAPEL HEBRON



Gyda gofid y sylwais fod tŷ capel Hebron ar lethrau'r Wyddfa, bellach yn adfeilion llwyr, ac o'r herwydd mae talcen capel Hebron ei hun yn awr yn agored i'r tywydd.

Dywed y rhai sy'n ffermio erwau Cwm Brwynog mai effaith y gaeaf garw ddechrau'r flywyddyn fu'n gyfrifol am gwymp y tŷ capel - wedi dadmer y rhew fe chwalodd y muriau.

Rwy'n deall mai gŵr o Lerpwl a brynodd y capel, y tŷ capel a'r darn o dir cyfagos pan werthwyd stad y Faenol, ac yn ôl a glywais ni welwyd y brawd yng Nghwm Brwynog wedi hynny.

Yn ôl William Hobley, fe godwyd capel Hebron yn 1833, a dywedir mai John Jones, Talysarn a roddodd yr enw arno. Bu cryn atgyweirio arno yn y blynyddoedd cynnar, ac yn 1859 y sefydlwyd yr eglwys yno. Ymddengys ei fod yn gapel hardd a chlyd ... "ei faint oddi mewn ydyw wyth llath wrth saith. Yn lle'r meinciau culion, rhoddwyd eisteddleoedd cysurus, 21 mewn nifer, lle i ryw gymaint rhwng 100 a 120. Mynedfa llathen o led yn gwahanu'r seti. Lloriwyd â cherrig melin, rhodd bonheddwr. Pulpud newydd wedi ei addurno â dau ganhwyllur pres. Yn grogedig o'r nenfwd seren bres chwe channwyll. Talwyd y ddyled gyda'r agoriad." (Hobley, tud 127).

Wrth sgwrsio gyda rhai sy'n ffermio Cwm Brwynog heddiw, sylweddolais eu bod hwythau fel finau, yn bur bryderus ynglŷn â chyflwr yr hen gapel, ac yn dra awyddus i gynorthwyo i geisio cadw gweddillion capel Hebron "ar ei draed". Yn ei lyfr ar hanes Methodistiaeth (Dosbarth Dinorwig a'r cylch), mae William Hobley yn

rhedru wyth o gapeli yng nghylch Llanberis (gan gynnwys Dinorwig) - bellach mae pump ohonynt wedi cau. O bosib fe ddefnyddir rhai o'r pump at ddibenion masnachol neu ddiwydiannol bellach, ond i mi mae Capel Hebron yn unigryw, am ei fod yr unig gysylltiad sy'n aros â'r gymdeithas fu'n bod yng Nghwm Brwynog flynyddoedd yn ôl. A dyna pam y carwn i o leiaf gychwyn trafodaeth ar sut, ac a ddylid cymrau i'w achub rhag rhagor o ddinistr.

Pam yn wir na chawn ninnau gadw "capel bach gwyngalchog" yma yn nhroed yr Wyddfa? Rwy'n sylweddoli y byddai'n gostus iawn i'w adfer i'r hyn a fu (a'i gadw fel Capel Nanhoron yn Llŷn) ond 'sgwn i a oes modd cymryd rhyw gamrau i arbed yr hen gapel rhag cwmpo'n domen o gerrig tawedog ar weirglodd Cwm Brwynog?

Yn 1983, bydd y capel yn 150 oed - tybed oes modd dathlu hynny mewn modd ymarferol?

Rol Williams - Waunfawr

BETH AM DDOD I GYSTADLU I EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Manylion gan Emlyn Jones, Bethesda 600846

neu beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda

Nos Wener, Tachwedd 12 6.30pm
Sadwrn, Tachwedd 13 12.30 a 6pm

Lluniaeth ysgafn yn yr ysgol bawn Sadwrn.

CYDDEITHAS TAI GWYNEDD

GWAITH ADNEWYDDU I'W WNEUD?

Adran Adeiladu
Cymdeithas Tai Gwynedd

Ymgymrwyr â phob math o waith adeiladu. Arbenigwyr ar adnewyddu a thrwsio. Cysylltwch â ni heddiw.

Y Trefnydd,
Cymdeithas Tai Gwynedd,
Penygroes,
Gwynedd.
Ffôn Penygroes 730.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG


Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

CROESAIR TACHWEDD



AR DRAWS:

1. Fel y ddafad yn y ddameg (7)
5. "Mae'r ... bach yn gwasgu Mewn man nas gwyddoch chi" (5)
8. Troi am Nan i gael bwyd gwyrtiol (5)
9. Llecyn agored (wedi'i dreiglo) (7)
10. Hapus (3)
12. Cystadleuaeth redeg (3)
13. Cymraes negyddol o Ffrainc! (3)
14. Llesmeirio (6)
15. "Nid oedd ond ... anial byd di-goed o gylch fy ngeni yn Eryri draw" (T.H.P-W) (6)
18. "Y ... Gymraeg" (3)
19. Tegan (3)
20. "I'r ...!" un o ganeuon Dafydd Iwan (3)
22. Y radd eithaf o ddrygioni (7)
23. Grŵp pop cyfoes yn gofalu am blwy? (5)
25. Gormesol (5)
26. Un sy'n gweithredu dros arall (7)

I LAWR:

1. Annog (5)
2. Eglwys (3)
3. Hoff anifail darllenwyr yr Eco? (7)
4. Hiraethu (6)
5. Y noson cyn neithiwr (5)
6. Digio Gwen wna'r parchedig (9)

7. Un sy'n gwatwar neu'n goganu (7)
11. Cymorth (9)
14. Carchar rhywbeth i'w ddarllen? (7)
16. "Pan geuai syrthni safnau'r cŵn Nosái ... yn eu sŵn." (RWP) (7)
17. Salwch (6)
19. Dewis (5)
21. Cosb ariannol yng nghefnidir Wyn (5)
24. Mintai o gantorion (3)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.
Atebion Croesair Hydref: Ar Draws: 3. Drennydd, 7. Eglwys.
 8. Festri, 9. Annuwiol, 11. Nant, 12. Bendithion, 17. Llaid, 18. Annelwig, 19. Seilio, 20. Ohonot, 21. Arolygu. **I Lawr:** 1. Tresaith, 2. Ffolineb, 3. Dwynwen, 4. Nofel, 5. Ymsynio, 6. Saint, 10. Osian, 13. Eidalwr, 14. Iselhau, 15. Newynog, 16. Ysgytio, 17. Llusgo, 18. Arogl.

Enillydd: Mrs H.J. Jones, 7 Trem Eilian, Brynrefail.

Anfonwch eich cynigion i **Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.** Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

DYDDIADUR

TACHWEDD:

1. Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
 LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn Ysgol Dolbadarn am 7.00
 LLANRUG - Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
2. Mawrth - BETHEL - Clwb Ffermwyr leuainc yn y Neuadd Goffa am 8.00.
 DEINIOLLEN - Dosbarth Nos 'Byd Natur' yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00.
 LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Dysgu Cymraeg' yn Ysgol Dolbadarn am 7.30.
3. Mercher - WAUNFAWR - Cangen yr Urdd am 6.00
 WAUNFAWR - Pwyllgor y Ganolfan yn Neuadd yr Eglwys.
 YR ARDAL - Cyngerdd gydag Elinor Bennett, Robert Wyn, Bontnewydd a Gwlith yng Nghapel Coch am 7.30.
4. Iau - WAUNFAWR - Sefydliad y Merched.
 LLANRUG - Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.
5. Gwener - BRYNREFAIL - Coelcerth a Tân Gwylt yn y Cae Chwarae.
 WAUNFAWR - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
 WAUNFAWR - Cangen yr Urdd yn cynnal Noson Tân Gwylt a Choelcerth yng nghae Bodhyfryd am 6.30. Yna cŵn poeth a chawl yn Neuadd yr Eglwys.
6. Sadwrn - YR ARDAL - Rali i goffáu buddugoliaeth Llywelyn ap Gruffudd ym Mrwydr Moel y Don. I'w chynnal yn y Felinheli am 2.00 o'r gloch.
 BETHEL - Eisteddfod Bethel a'r cylch.
8. Llun - LLANRUG - Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid'.
 LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.
 LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
9. Mawrth - BETHEL - Clwb Bro Bethel.
 BETHEL - Clwb Ffermwyr leuainc yn y Neuadd Goffa am 8.00.
 LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Dysgu Cymraeg'.
 DEINIOLLEN - Dosbarth Nos 'Byd Natur'.
 LLANRUG - Merched y Wawr - Sgwrs a sleidiau ar India gan Gwen Jones.
10. Mercher - WAUNFAWR - Cangen yr Urdd am 6.00.
 LLANBERIS - Clwb y Mamau.
11. Iau - DEINIOLLEN - 'Distawrwydd Noddedig' er budd Cronfa 'Majorettes'.
12. Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed.

WAUNFAWR - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

13. Sadwrn - WAUNFAWR - Eisteddfod yr Ardal yng Nghapel Croesywaun.

15. Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

LLANRUG - Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid'.

DEINIOLLEN - Merched y Wawr - sgwrs a ffilm ar Rwsia gan Mrs Gwenda Smith, Llanfairfechan.

16. Mawrth - BETHEL - Clwb Ffermwyr leuainc yn y Neuadd Goffa am 8.00.

DEINIOLLEN - Dosbarth Nos 'Byd Natur'.

LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Dysgu Cymraeg'.

LLANRUG - Y Gymdeithas Undebol - Darlith gan y Dr John Gwilym Jones.

17. Mercher - WAUNFAWR - Sefydliad y Merched yn cynnal Ysgol Grefft ar waith Canfas.

BETHEL - Cangen Plaid Cymru.

18. Iau - LLANRUG - Noson o Baned a Byrddau Gwerthu gan Gymdeithas y Chwiorydd, Pontrhythallt, yr elw at y Capel.

19. Gwener - LLANBERIS - Clwb yr Henoed yn cynnal Arwerthiant yn y Ganolfan.

WAUNFAWR - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

20. Sadwrn - BRYNREFAIL - Gwibdaith Clwb y Mamau i Gaer.

21. Sul - YR ARDAL - Gwasanaeth Sul yr Urdd yng Nghapel Coch am 3.15. Cymerir rhan gan ganghennau'r ardal.

22. Llun - LLANRUG - Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid'.

LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

23. Mawrth - BETHEL - Clwb Ffermwyr leuainc yn y Neuadd Goffa am 8.00.

LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Dysgu Cymraeg'.

DEINIOLLEN - Dosbarth Nos 'Byd Natur'.

24. Mercher - WAUNFAWR - Sefydliad y Merched yn cynnal Ysgol Grefft ar waith Canfas.

WAUNFAWR - Cwmni Drama Glannau Dwyfor yn perfformio dwy ddrama fer yn Neuadd yr Eglwys am 7.00.

LLANBERIS - Clwb y Mamau.

25. Iau - WAUNFAWR - Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug.

LLANBERIS - Sefydliad y Merched.

26. Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed.

WAUNFAWR - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

29. Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

LLANRUG - Dosbarth Nos 'Gwareiddiad y Celtiaid'.

30. Mawrth - BETHEL - Clwb Ffermwyr leuainc yn y Neuadd Goffa am 8.00.

LLANBERIS - Dosbarth Nos 'Dysgu Cymraeg'.

DEINIOLLEN - Dosbarth Nos 'Byd Natur'.

LLANRUG - Y Gymdeithas Undebol - Dadl ymysg yr aelodau.

DYDDIADAU I'W COFIO

Rhagfyr 3 - Cyngerdd arbennig 'Doniau Bro' yn Waunfawr.

Rhagfyr 3 - Ffair Nadolig Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

Rhagfyr 4 - Eisteddfod Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen.

Rhagfyr 7 - Cymdeithas Undebol Llanrug - Sgwrs gan Mr Islwyn Jones.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWASANAETH NEWYDD

yng nghylch Eco'r Wyddfa
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd

Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

am fwy o fanylion



CHWARAEON

CYMDEITHAS PYSGOTWYR SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

Ar ôl yr holl sychder mawr, daeth y glaw cyntaf ar Awst 18 a gwelwyd y dair afon wedi gorlifo eu glannau, ond siomedig iawn oedd y nifer o bysgod a ddaliwyd, sôn am lawer yn cael eu bachu ac yn dod yn rhydd. Rhai o'r 'sgotwyr a gafodd hwyl arni oedd: Aled Evans, Cwm y Glo, gyda dau; Adrian Roberts, Seion gydag un da iawn tri pwys ar ddeg a hanner; Moi Jones, Pont Rug a Brian Evans, Llangefni gyda dau yr un. Y rhain o'r Seiont wrth gwrs a Wally Williams o Lanllyfni yn cael un pedwar pwys ar ddeg a hanner, ac Edwin Lewis un deuddeg pwys a hanner o'r Llyfni.

Ar ôl y glaw yma, daeth pythefnos o sychder, gyda'r afonydd eto i lawr fel canol haf, ond fel y disgwylir yr adeg yma o'r flwyddyn, daeth y glaw drachefn ganol mis Medi, ac wedyn fe ddechreuwyd dal, a dyma rai o'r ardal a fu'n llwyddiannus: Gwynfor Jones, Bethel - 15 pwys; James Carr, Llanberis - saith (y mwyaf 9 pwys a hanner); Clifford Thomas, Felinheli - dau (gorau 10 pwys); Ted Tolman, Llanberis - 4 (gorau 14 pwys); Donald Pritchard, Caethro - saith (gorau 14 pwys); Alwyn Williams (Barbar), Llanrug, un saith bwys; Bill Bailey a John Jones, Bethel - dau yr un; Brian Evans, Llangefni - un arall am 16 pwys; Elwyn Williams - un arall o Sir Fôn, ond yn wreiddiol o Seion - dau (gorau 14 pwys); Norman Dooley ac Alan Jones, Caernarfon gyda saith yr un, y gorau tua 14 pwys; Alwyn Morris, Ceunant, dau (gorau 10 pwys); Oscar Evans, Bethel - tri (dim sôn am eu pwysau); Tom Christy a John 'Stone', Caernarfon, dau yr un; Goronwy Morris, Llanrug, - pedwar; Deiniol Williams, Bethel, tri. Hefyd rhaid canu tipyn ar fy nghloch fy hun, cefais innau un am 16 pwys y diwrnod o'r blaen.

Ar y Llyfni, araf iawn fu 'sgota am yr Eog, a thrachefn y rhai i gael sôn amdanynt yw Edwin Lewis gydag un 17 pwys ar bluen rhif 10 o Llyn Lan Môr, a Wally Williams drachefn gydag un 16 pwys o Glanrafon!

PYSGOTWR BYRBWYLL

Pwy aeth yn ôl ei arfer
I 'sgota wedi swper,
Seiont mewn llyf ac yntau'r rôg
Â'i fryd ar ddal yr eog?
Rodd abwyd yn Llyn Engan?
Gadd blwc yn hynod syfrdan?
Dynnod ei lein yn ffyddiog hy -
Ac eto, nad oedd yn ddigon cry?

Ow'r gŵr o fro Eryri!
Pa ryw bysgodyn heini
A lyncodd d'abwyd di a'th fach
A'th arwain dithau i'r fath strach.

Can's lluchio a wnest dy enwa'r,
A chropian ar dy bedwar,
I'th lusgo ganllath dan y don
Gan forfil deunaw pwys o'r bron.

Rheol pysgota'r pyllau
Yw aros ar y glannau.
Cofia Huw, yn ddigon siŵr
Gwell iti gwch cyn mynd i'r dŵr.

Y Pry Cudd.



UN ARALL O HELYNTION HUW Y 'SGOTWR

Un noson olau leuad
Aeth Huw Price Hughes am dro
I fyny tua Chaeathro
I 'sgota medda fo.

Cyrhaeddodd lan Llyn Engan
A'i wialen yn ei law
Ond cyn i Huw gael bachiad
Dechreuodd fwrw glaw.

Yn sydyn roedd 'rhen gyfaill
Yn socian at ei groen
Ond yna dyna fachiad
I leddfu peth o'i boen.

Dechreuodd Huw y frwydr
I rwydo'r 'sgodyn teg
A hwnnw'n ceisio dianc
A'r bachyn yn ei geg.

Mae'r frwydr a ddilynodd
Yn hanes erbyn hyn
O Huw yn dal ei afael
Wrth sgelfrio tua'r llyn.

Datblygodd hon yn frwydr
Y fwyaf fu erioed
A Huw yn cael ei dynnu
Drwy'r dyfroedd a thrwy'r coed.

O'r llyn i lawr yr afon
A Huw yn colli tir
Yr eog oedd yn ennill
Roedd hynnyd'n ddigon gwir.

Ond yna fe ddaeth heddych
Yr eog druan yn wan
A chafodd Huw ddim trafferth
Ei dynnu tua'r lan.

Ond ar ôl cyrraedd adref
Cafodd gosfa orau erioed
Pan welodd Mrs Hughes ei fod
Yn fwd o'i ben i'w droed.

Prygenwarjet.

PÊL-DROED

"Ac mae'n debyg y byddi'n fy anfon
o'r cae rŵan am 'professional
foul'!"



PÊL-DROEDWYR ADDAWOL



Hugh Jones (chwith) a Kevin Jones (de) o Ysgol Brynrefail fydd yn ymddangos yn Nhreialon Terfynol Gogledd Cymru i rai dan 15 oed yn ystod y mis nesaf.

CYNGHRAIR CAERNARFON: Safleoedd y timau lleol

	ch	pw
Felinheli	10	18
Pwllheli	10	17
Llanberis	10	16
Hirael	11	16
Llanrug	10	12
Bethel	12	6

Canlyniadau'r Sadwrn diwethaf.
LLANBERIS 6-1 Talysarn
Mt Rangers 3-2 BETHEL

BRIWSION O FYD PÊL-DROED

Digon distaw fu hanes byd pêl-droed lleol hyd yma. Fel y tymhorau diwethaf, yr un yw'r stori - y clybiau cryfaf yn arwain unwaith eto, a thîm y Felinheli yn cael eu henwi'n barod fel darpar-bencampwyr. Ond mae timau cryf yn Llanberis a Phwllheli hefyd. Nid yw chwarae Llanrug wedi bod yn ddigon cyson i roi gormod o obaith ar ennill y bencampwriaeth, ond ar eu diwrnod gallant chwarae'n dda iawn, a siawns na fydd gobaith am gwpan. Mae tîm Bethel hefyd wedi cryfhau eu carfan, a than arweiniad yr hen ben Dic Roberts, maent wedi dringo i fyny'r tabl o'u man arferol ar waelod y gynghair.

Daeth rhai newidiadau sylfaenol i reolau'r gêm y tymor hwn, ac yn sicr bu cryn gam-ddeall ymysg chwaraewyr, gwylwyr a dyfranwyr. Does dim dwywaith nad yw'r rheol sy'n cyfyngu ar hawliau gôl-geidwad wedi cyflymu'r gêm, ond rhaid disgwyl i weld pa effaith a gaiff y rheol ynglŷn â "proffesional foul" yn y pen-draw. Newid bychan ond gwerthfawr yw'r newid ynglŷn â thafu'r bêl i mewn hefyd, oherwydd yn sgîl y newid hwn daeth unwaith eto ymgais i gyflymu'r gêm a chael gwared â'r dulliau o wastraffu amser. Bydd trafodaeth ar y rheol 'anfon o'r cae' yn y rhifyn nesaf.